Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Gwerth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf

Papur Ymgynghorol [CP 06/08]

Cyhoeddwyd ar Ebrill 9 2008

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 2 Orffennaf, 2008



NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
National Offender Management Service

Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Gwerth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf

Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr sydd yn rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r adroddiad hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder www.justice.gov.uk

NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
National Offender Management Service

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	8
Crynodeb Gweithredol	5
Y CYNIGION	15
Cefndir	*15*
Egwyddorion Gwerth Gorau	*18*
Sut yr awgrymwn y dylai Gwerth Gorau weithio	*20*
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	*30*
Cystadlu	*31*
Materion Gweithlu	*32*
Sylwadau Cyffredinol	*33*
Holiadur	35
Amdanoch chi	37
Sut i ymateb	38
Asesiad o Effaith:	40
Meini prawf yr ymgynghoriad	66
Manylion cyswllt Cydlynydd yr Ymgynghoriad	67

Rhagair

Mae rôl y gwasanaeth prawf o ran gwarchod y cyhoedd a lleihau ail-droseddu yn tyfu'n bwysicach bob gafael. Mae mwy a mwy o droseddwyr yn derbyn dedfrydau cymunedol ac yn adroddiad yr Arglwydd Carter o Coles “Gwarchod y Dyfodol”(Rhagfyr 2007)- argymhellwyd y dylid defnyddio dedfrydau amgen i garchar ble bynnag bo hynny'n briodol.

Mae'r ffactorau hyn yn arwain at bwysau cynyddol ar y gwasanaethau prawf, gan ei gwneud hi'n bwysicach nag erioed bod ardaloedd gwasanaeth prawf yn gwella eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd.Ynghyd â chymaint o sectorau eraill, mae'n rhaid i'r gwasanaeth prawf ymdrechu i wneud mwy gyda llai, gan wneud y defnydd gorau posib o'r cynnydd gwirioneddol o 70% o ran yr adnoddau a dderbyniwyd dros y degawd ddiwethaf.

Dyna pam rydym yn cyflwyno Gwerth Gorau. Nid mater o sicrhau mai un math o ddarparwr sy'n cyflwyno gwasanaethau prawf sydd yma. Ac nid mater o dorri costau chwaith. Yn hytrach, diben hyn oll yw darparu gwerth gorau i'r trethdalwr. Bydd Gwerth Gorau yn galluogi ardaloedd gwasanaeth prawf i arddangos pa mor llwyddiannus ydynt wrth gyflawni economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, ac i wneud gwelliannau angenrheidiol. Gall hyn gynnwys diwygiadau o ran sut y cyflwynir gwasanaethau mewnol, neu fe all olygu cytundebu gyda phartner.

Yn ystod taith y Mesur Rheoli Troseddwyr drwy'r Senedd y llynedd, dynododd y Llywodraeth symudiad oddi wrth gyfundrefn gontractio allanol yn seiliedig ar dargedau oddi mewn i'r gwasanaeth prawf a thua model yn seiliedig ar egwyddorion gwerth gorau. Cafodd hyn ei ysbrydoli gan y gyfundrefn o'r un enw sydd ar waith ym myd llywodraeth leol, ac yn tynnu ar wersi a ddysgwyd o'r profiad hwnnw. Yn debyg i lywodraeth leol, awgrymwn y dylid seilio Gwerth Gorau ar y pedwar pennawd canlynol: cymharu, ymgynghori, cwestiynnu, a ble bo hynny'n briodol, cystadlu. Ac fe awgrymwn pumed pennawd- cydweithio: meysydd gwasanaeth prawf yn cydweithio â'i gilydd i gyflawni canlyniadau.

Rydym am sicrhau bod y fframwaith Gwerth Gorau wedi ei deilwrio'n iawn ar gyfer anghenion y gwasanaeth prawf. Dyna pam yr ydym yn ymgynghori drwy gyfrwng y ddogfen hon ynghylch sut ddylai'r fframwaith weithio. Croesawn eich barn ar ein fframwaith arfaethedig i'n helpu i sicrhau y cyflwynir Gwerth Gorau yn y modd mwyaf effeithiol ar gyfer ein holl randdeiliaid.



Y Gwir Anrh. David Hanson MP

Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Crynodeb Gweithredol

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ystyried sut ddylai'r gyfundrefn Gwerth Gorau weithio oddi mewn i'r Gwasanaeth Prawf.

Polisi'r llywodraeth yw y dylid sefydlu economi gymysg yn narpariaeth y gwasanaeth prawf- dylai pob sector o'r economi ddarparu'r gwasanaethau hynny y gallent gyflwyno yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon. I ddechrau, golygai hyn bod rhaid i feysydd gwasanaeth prawf gontractio allan 10% o'u gwaith.

Yn ystod taith y Mesur Rheoli Troseddwyr drwy'r Senedd, dynododd Gweinidogion y Llywodraeth symudiad oddi wrth drefn gontractio allanol yn seiliedig ar dargedau at fodel yn seiliedig ar egwyddorion gwerth gorau. Yn y model hwn, y darparwr allai arddangos y gwerth gorau fyddai'n cael ei ddewis i gyflwyno'r gwasanaeth, o ba sector bynnag y deuai. **Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â sut ddylai'r drefn Gwerth Gorau weithio.**

Bydd Gwerth Gorau yn broses a fydd yn galluogi byrddau ac ymddiriedolaethau'r gwasanaeth prawf i arddangos a gyrru cyflawniadau sy'n gynyddol effeithlon ac effeithiol. Bydd yn eu galluogi i gyflawni gwelliannau parhaus yn y modd y maent yn darparu gwasnaethau. Nid yw Gwerth Gorau wedi'i deilwrio'n benodol ar gyfer contractio allan gwasanaethau. Mae'r penderfyniad o ran a yw hynny i ddigwydd ai peidio yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad; mae Gwerth Gorau ei hun yn niwtral ynghylch y canlyniad terfynol.

Mecanwaith unigol yw Gwerth Gorau sy'n berthnasol ar gyfer yr holl wasanaethau a ariennir gan fyrddau ac ymddiriedolaethau'r gwasanaeth prawf gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflwyno mewn canolfannau cadw, ni waeth sut y'u cyflwynir(gan y sector gyhoeddus, y sector breifat neu'r trydydd sector) neu os oes cystadleuaeth yn digwydd amdanynt ai peidio. Mae'r cynnig yn y ddogfen hon yn cynrychioli cyfres o ofynion ar fyrddau ac ymddiriedolaethau'r gwasanaeth prawf i arddangos ac i yrru eu gwasanaethau o ran gwerth am arian, i feincnodi ac i gymharu eu perfformiad a'u model cyflwyno gwasanaethau presennol gydag eraill, ac i ymchwilio i'r potensial o ran gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a hynny yn seileidig ar heriau trwyadl.Pwy bynnag fydd yn cyflwyno'r gwasanaeth, mater i'r bwrdd neu'r ymddiriedolaeth brawf yn y maes prawf perthnasol fydd cynnal yr adolygiad Gwerth Gorau, er y byddai'n rhaid i isgontractwyr gymryd rhan ynddynt, a chyfrannu tuag atynt, fel bo hynny'n briodol.

Mae'r fframwaith arfaethedig a gyflwynir yn y ddogfen hon wedi ei hysbrydoli gan y gyfundrefn gwerth gorau sydd eisoes wedi ei roi ar waith mewn llywodraeth leol, ond ar ben hynny, rhoddir ystyriaeth i anghenion penodol y gwasanaeth prawf. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar bedwar pennawd y model

llywodraeth leol- cymharu, ymgynghori, cwestiynnu, cystadlu – ynghyd ag un pennawd ychwanegol- cydweithio.

Awgrymwn y dylid cynnwys pedwar rhan yn y broses adolygu Gwerth Gorau

A. Cynllun Gwaith Cenedlaethol

Ym mlynyddoedd cynnar y cynllun, byddai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn dewis gwasanaethau a ddylid eu hadolygu o blith ardaloedd gwasanaeth prawf, gan ei gwneud hi'n haws iddynt gymharu eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd gyda'i gilydd mewn modd cydlynus. Byddai'r rhaglen hon o adolygiadau yn para dros gyfnod o dair blynedd. Byddai NOMS yn dewis y gwasanaethau hyn drwy ystyried pum maen prawf: pwysigrwydd strategol y gwasanaeth, y potensial i gynyddu ei effeithiolrwydd, y potensial i gynyddu ei effeithlonrwydd, y cymhwysedd sydd gan y meysydd prawf i gynnal adolygiadau, a dadansoddiad cost/budd yr adolygiadau hynny. Byddai NOMS, ynghyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, hefyd yn cyflwyno manylebau gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau adolygwyd, a hynny'n gyson â Chytundebau Lefel Gwasanaeth, contractau a safonau cenedlaethol. Gydag amser, byddem yn symud tuag at fodel datganoledig, ble fyddai Cyfarwyddwyr Rhanbarthol NOMS yn cytuno gyda meysydd gwasanaeth prawf pa wasanaethau fyddai'n cael eu hadolygu yn yr ardal honno.

B. Cydlyniad Rhanbarthol

Byddai cyfarwyddwyr Rhanbarthol yn y naw Rhanbarth Seisnig a Chymru, yn cydlynu'r adolygiadau oddi mewn i'w rhanbarth. Byddent yn sicrhau y byddai'r adolygiadau yn digwydd tua'r un adeg , gan alluogi meincnodi i ddigwydd. Byddent yn negydu gyda'r meysydd gwasanaeth prawf o ran unrhyw addasiadu angenrheidiol i fanylebau'r gwasanaeth cenedlaethol, er mwyn caniatau iddynt ystyried unrhyw amgylchiadau lleol penodol.

C. Y Broses Adolygu

Cam i – Casglu'r data cychwynnol

Mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid perthnasol, a ble bo hynny'n briodol, mewn cydweithrediad â'u cyfoedion[1], byddai meysydd prawf yn casglu data am eu perfformiad a'u costau, a'i ddefnyddio i herio'u hunain ynghylch pa mor effeithiol ac effeithlon yw'r gwasanaeth a gyflwynir ganddynt

Cam ii – Meincnodi

Byddai'r data hwn yn cael ei gasglu a'i ddarparu ar gyfer pob maes prawf a fyddai yn ei ddefnyddio i gymharu eu perfformiad eu hunain â pherfformiad eu cyfoedion ac i herio'u hunain ymhellach ynghylch sut y cyflwynir y

[1] h.y. (a thrwy'r ddogfen hon) – byrddau ac ymddiriedolaethau eraill.

gwasanaeth. Byddai hyn yn cynnwys ystyried y manteision posib ynghlwm wrth gystadleuaeth.

Cam iii – Y cynllun gwella perfformiad

Gan ddefnyddio'r holl wybodaeth hon byddai meysydd prawf yn ymgynghori ynghylch ac yn llunio cynllun gwella perfformiad lle byddent yn esbonio sut y bwriedid gwella eu gwasanaeth yn wyneb yr adolygiad Gwerth Gorau.

CH. Symud Gwelliannau yn eu Blaen

Gan ddefnyddio cyfres safonol o feini prawf gwerthuso, byddai cyfarwyddwyr rhanbarthol NOMS yn gwerthuso'r cynlluniau gwella perfformiad hyn er mwyn sicrhau eu bod yn rhai cadarn a'u bod yn ystyried yr holl opsiynau posib, gan gynnwys cynnig cystadleuaeth am y gwasanaeth ble bo hynny'n briodol. Fe fyddai hyn yn cael ei wneud drwy ddeialog a phartneriaeth gyda'r maes prawf,ac fe fyddai'r naill a'r llall yn cyrraedd cytundeb ar gynllun terfynol i'w symud yn ei flaen. Byddai'r meysydd prawf wedyn yn rhoi'r cynllun gwella perfformiad ar waith ac yn monitro ei effaith.

Byddai Cyfartaledd ac Amrywiaeth yn cael ei mewnosod drwy'r fframwaith. Bydd Gwerth Gorau yn niwtral ynghylch gwasanaethau yn cystadlu â'i gilydd. Os bydd gwasanaethau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, a phan fo hynny'n digwydd, byddai angen ystyried materion yn ymwneud â'r gweithlu drwy gydol y broses.

Unwaith bo'r fframwaith wedi ei orffen, bydd NOMS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyflwyno rhagor o arweiniad am brosesau Gwerth Gorau.

Cyflwyniad

Bwriad y papur hwn yw ymgyngori ynghylch cynlluniau arfaethedig y Llywodraeth ar sut ddylai'r drefn Gwerth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf weithio. Anelir yr ymgynghoriad at bob rhanddeiliad sydd â diddordeb yn y mater hwn, gan gynnwys y cyhoedd yng Nghymru a Lloegr.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r Côd Ymarfer ar Ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, ac mae'n syrthio oddi mewn i ystod y Côd. Mae'r meini prawf ymgynghori, a welir ar dudalen 66, wedi eu dilyn.

Mae Asesiad o Effaith wedi ei gwblhau ac mae'n dynodi y bydd y sector gyhoeddus- byrddau prawf ac ymddiriedolaethau gan amlaf- yn debyg o gael eu heffeithio yn o drwm. Mae'r argymhellion yn debyg o arwain at gostau ychwanegol ar y sector gyhoeddus(er y bydd yr arbedion costau yn gorbwyso hynny), er y byddai hefyd yn cael effaith bychan ar y sector breifat a'r trydydd sector. Atodir Asesiad o Effaith ar dudalen 41. Croesewir sylwadau ar yr Asesiad o Effaith yn arbennig.

Mae'r sefydliadau a gaiff eu rhestru ar y tudalennau canlynol yn derbyn gwybodaeth ynghylch yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r rhestr hwn fod yn un gyflawn nac anghynhwysol ac fe groesawir sylwadau gan unrhyw un sydd â diddordeb neu sydd â barn ar y pwnc dan sylw yn y papur hwn.

Sefydliadau sy'n derbyn gwybodaeth am yr ymgynghoriad

Accenture

Action for Prisoners' Families

Addaction

After Adoption North East

Alcohol Concern

Canolfan Anne Peaker

Cymdeithas Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Prawf (ACECOP)

Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol (ACEVO)

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

Y Comisiwn Archwilio

Barnardo's

Y Farwnes Corston

Y Farwnes Kennedy o'r Shaws

Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo

Busnes yn y Gymuned

Ymddiriedolaeth Butler

Canolfan Astudiaethau Troseddol a Chyfiawnder

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)

Swyddfa'r Prif Ynad

Canolfan Camfanteisio ar Blant a Diogelwch Ar Lein (CEOP)

Cymdeithas y Plant

Fforwm Cyfiawnder Troseddol yr Eglwys

Cyngor ar Bopeth

Ymddiriedolaeth City Bridge

Clinks

Comisiwn ar Garchardai Lloegr Heddiw

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Cymunedau a Llywodraeth Leol

Cysylltiadau Cymunedol ar gyfer Cyn-Droseddwyr (CLEO)

Conffederasiwn Diwydiant Prydain

Y Llys Apêl

Crime Concern

Y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol

Yr Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd

Yr Adran Iechyd

Yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau

Yr Adran dros Waith a Phensiynau

Gwasanaeth Cyngor Canolfannau Cadw

Ymddiriedolaeth Drinkaware

DrugScope

Gwasanaethau Data Electroneg (EDS)

Comisiwn Cyfartaledd a Hawliau Dynol

Sefydliad Esmée Fairbairn

Cymdeithas Fawcett

Ffederasiwn Busnesau Bach

G4 Securicor

GEO Group UK Ltd

GMB/SCOOP

Global Solutions UK Limited (GSL)

Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi

Cyngor Barnwyr Cylchdaith EM

Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf EM

Trysorlys Ei Mawrhydi

HIBISCUS

Y Swyddfa Gartref

Cynghrair Howard dros Ddiwygio'r Deddfau Cosbi

IdEA

Bwrdd Monitro Annibynnol

Ymddiriedolaeth Inside Out

Sefydliad dros Ymchwil i Bolisi Troseddol

Canolfan Rhyngwladol Astudiaethau Carchar, Coleg y Brenin, Llundain

Swyddfa Farnwrol Lloegr a Chymru

Bwrdd Astudiaethau Barnwrol

JUSTICE

Consortiwm Ymchwil i Gyfiawnder

Grŵp Seneddol Undebau dros Gyfiawnder

Cymdeithas Clercod yr Ynadon

Kalyx

Ymddiriedoaleth Langley House

Cyngor Addysgu a Sgiliau

Liberty

Cymdeithas Llywodraeth Leol

Gwasanaeth Prawf Llundain

Yr Arglwydd Carter o Coles

Yr Arglwydd Ramsbotham

Yr Arglwydd Rosser

Yr Arglwydd Woolf

Cymdeithas yr Ynadon

Heddlu Llundain

Nacro

Cymdeithas Cenedlaethol Lleoliadau Cymeradwyedig (NAPA)

Cymdeithas Cenedlaethol y Gwasanaeth Prawf (NAPO)

Swyddfa Archwilio Cenedlaethol

Corff Cenedlaethol Grwpiau Cefnogi Carcharorion Du(NBBPSG)

Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Trin Camddefnydd o Sylweddau (NTA)

Prosiect New Bridge

Rhwydwaith Darparwr Cenedlaethol NOMS

Grŵp Cyfeirnodi Rhanddeiliad NOMS

Grŵp Ymgynghorol NOMS ar y Sector Wirfoddol (ac Is-Grŵp Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf)

Cyngor Gogledd Ayrshire (Partneriaeth Cyfiawnder Troseddol)

Swyddfa Masnach y Llywodraeth

Swyddfa'r Trydydd Sector, Swyddfa'r Cabinet

Ofsted

Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr

Grŵp Cefnogi Partneriaid a Theuluoedd Carcharorion (POPS)

Pecan

Cymdeithas Swyddogion Carchar (POA)

Ffederasiwn yr Heddlu Cymru a Lloegr

Uned Gyflwyno'r Prif Weinidog

Ymddiriedolaeth y Tywysog

Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchar (pact)

Cymdeithas Llywodraethwyr Carchardai

Prison Link, SMART UK

Ymddiriedaeth Diwygio Carchardai

Cyngor Diwydiannol Unol y Gwasanaeth Carchar (PSJIC)

Prison Service Plus

prisons.org.uk

Ombwdsman dros Garchardai a Gwasanaeth Prawf Cymru a Lloegr

Cymdeithas y Byrddau Prawf

Yr Athro Peter Raynor, Prifysgol Cymru , Abertawe

Yr Athro Steve Martin, Prifysgol Caerdydd

Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS)

Adran Mainc y Frenhines, Yr Uchel Lys

Race on the Agenda (ROTA)

Rheolaeth Tasg Diogel Reliance

Gweithlu Respect

Consortiwm Cyfiawnder Adferol

Asiantaeth Revolving Door

Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol

Samaritans

Cyngor Canllawiau Dedfrydu

Serco

Asiantaeth Troseddau Difrifol

Ymddiriedolaeth Shannon

Smart Justice

Gweithlu Anghynhwysiad Cymdeithasol, Swyddfa'r Cabinet

Steria

Stonham

Cefnogi Eraill drwy Weithredu Gwirfoddol (SOVA)

Turning Point

UNSAIN

UNLOCK

Cefnogaeth i Droseddwyr

Grŵp Ymgynghorol y Sector Wirfoddol

Swyddfa Archwilio Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cyswllt Gwaith

YMCA

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr

Cefnogaeth i'r Ifanc

Y CYNIGION

Cefndir

Mae'r papur ymgynghorol hwn yn ceisio barn ynghylch sut ddylai'r system Gwerth Gorau weithio yn y Gwasanaeth Prawf.

Cyflwynir Gwasanaethau Prawf yng Nghymru a Lloegr gan 42 o fyrddau prawf ac ymddiriedolaethau, a'r rheini wedi eu cydlynu gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC). Diben y Gwasanaeth Prawf yw arolygu troseddwyr yn y gymuned- y rhai hynny sydd wedi derbyn gorchymyn llys (tua 70%), a'r rhai hynny sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar ar drwydded (tua 30%). Mae'r GPC yn cyflogi tua 20,000 o staff. Ar unrhyw adeg penodol, bydd yn arolygu tua 200,00 o droseddwyr sy'n oedolion yn y gymuned. Mae cyfrifoldebau'r gwasanaeth yn cynnwys:

- Arolygu gorchmynion cymunedol (allai gynnwys, er enghraifft, gwaith di-dâl, cyrffyw neu adferiad cyffuriau). Fel esiampl, bydd y gwasanaeth prawf yn arolygu tua 8 miliwn awr o waith di-dâl gan droseddwyr mewn cymunedau lleol.
- Paratoi adroddiadau cyn- dedfrydu (tua 250,000 bob blwyddyn) ar gyfer y llysoedd.
- Gweithio gydag unigolion sydd wedi dioddef trosedd dreisiol neu rywiol ble mae'r troseddwr wedi ei ddedfrydu i flwyddyn neu fwy mewn carchar.
- Trefnu lleoliadau sydd wedi eu cytuno er mwyn cynnig llety ar gyfer, er enghraifft, troseddwyr sydd newydd eu rhyddhau. Mae 100 o hosteli wedi eu cymeradwyo gan y Gwasanaeth Prawf.[2]

Ym mis Awst 2006. cyhoeddodd y Llywodraeth y ddogfen “Partneriaethau Gwerth Cyhoeddus”.[3] Yn y cynllun hwn, amlinellwyd cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth prawf a fyddai'n gweld y corff hwnnw yn gwneud mwy o ddefnydd o'r sector breifat a'r trydydd sector, er mwyn annog arloesedd ac effeithiolrwydd. Yn hytrach na chanolbwyntio ar un sector yn unig, byddai'r gwasanaeth prawf yn tynnu ar dalentau pawb oedd ar gael; gan weithio ar y cyd ble bo angen er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau. Yn hytrach na bodloni

[2] Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: www.probation.homeoffice.gov.uk.

[3] Gweler http://noms.justice.gov.uk/news-publications-events/publications/strategy/impr_prison_probat_partnerships?view=Binary

ar un ateb gosod ar gyfer pob cyrchddull, byddai economi gymysg o ddarpariaeth ar gael. Roedd yr amcan hwn i'w gyflawni drwy gyfuniad o osod targedau a deddfwriaeth.

Felly, roedd disgwyl i feysydd Prawf gontractio 10% o'u gwaith blynyddol erbyn 2007/08. Yn dilyn cymeradwyo'r Ddeddf Rheoli Troseddwyr a ddaeth yn gyfraith gwlad yr haf diwethaf, cafodd y ddyletswydd statudol o ran gwneud trefniadau ar gyfer y gwasanaethau prawf ei throsglwyddo o'r byrddau prawf i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Bu hyn yn gyfrwng i greu cyrff sector gyhoeddus newydd- sef ymddiriedolaethau gwasanaethau prawf- y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol gytundebu â hwy, ynghyd â darparwyr o'r sector breifat a'r trydydd sector. Mae'r don gyntaf o ymddiriedolaethau prawf bellach wedi eu sefydlu.

Yn ystod y trydydd darlleniad o'r Mesur Rheoli Troseddwyr yn Nhŷ'r Cyffredin, fe wnaed y datganiad canlynol gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Pryd, Dr John Reid:

'Yn y dyfodol, byddwn yn dileu'r targedau presennol a gosod uchelgais cwbl wahanol yn eu lle. Yn y dyfodol, ni fydd yr uchelgeisiau- y targedau-, yn cael eu seilio ar y rhagdybiaeth a priori bod rhaid trosglwyddo lefel benodol o waith y tu hwnt i'r sector gyhoeddus, ni waeth a yw hynny'n cynnig y gwerth gorau neu a yw'n cael ei ddarparu gan y darparwr gorau. Byddai hynny yn gyrchddull ddogmataidd allai orfodi gwaith o'r sector gyhoeddus a hynny heb reswm digonol. Ni chaiff unrhyw ragdybiaethau a priori eu gwneud fel rhan o'n cyrchddull ni. {...}

Hoffwn wneud hyn yn berffaith amlwg: os yw'r darparwr sector gyhoeddus yn ddigon da {...} bydd ganddo gystal cyfle ag unrhyw un arall i ennill y gwaith, os nad gwell cyfle yn wir, o gofio am brofiad ac ymglymiad rhai darparwyr. Ein diben yn syml yw gweld y darparwr gorau yn cyflwyno'r gwerth gorau ar gyfer y trethdalwr. Dyna yw ein nod {...}

Er nad ydym wedi cwblhau'r union fanylion ynghylch sut y gellid cyflawni'r nod hwnnw, byddem yn amlwg yn edrych ble mae gwerth gorau ar waith yn barod ac yn nod canolog yn y broses dan sylw- er enghraifft, mewn llywodraeth leol. Byddwn yn astudio'r cynlluniau hynny er mwyn darganfod allwn ni ddysgu ohonynt ac ymgorffori'r gwersi hynny yn ein gwaith.'[4]

Cafodd y cyrchddull hwn ei atgyfnerthu ac fe ychwanegwyd ato yn ystod taith y mesur drwy Dŷ'r Arglwyddi.[5] **Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried sut ddylai'r system Gwerth Gorau hwnnw weithio.**

Mae nifer o resymau dros gyflwyno Gwerth Gorau:

---

[4] Er enghraifft: Hansard, Tŷ'r Arglwyddi, Gorffennaf 3 2007, colofn 916.

[5] h.y. (a thrwy gydol y ddogfen hon) – byrddau ac ymddiriedolaethau eraill

- Gyrru gwerth gorau drwy helpu i ddiffinio safonau ansawdd a dynodi a rhannu arfer gorau.
- Gyrru gwelliannau parhaus mewn gwasanaethau
- Cyfrannu tuag at ryddhau arbedion effeithiolrwydd oddi mewn i'r gwasanaeth prawf.
- Cefnogi'r agenda gomisynu ehangach oddi mewn i reolaeth troseddol.
- Datblygu'r farchnad gyflenwol drwy greu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau allanol ac arloesol
- Helpu cyflwyno gwasanaethau cymunedol integreiddiedig.
- Galluogi'r broses o gyflwyno gwasanaethau sydd yn well ac yn fwy personol.
- Cefnogi agenda lleoleiddio ehangach y Llywodraeth
- Annog partneriaethau cryfach rhwng darparwyr gwasanaeth NOMS.

Edrychwyd ar sut y mae gwerth gorau wedi ei roi ar waith mewn llywodraeth leol, er mwyn ein helpu i benderfynu pa fodel fyddai orau ar gyfer y gwasanaeth prawf. Cafodd Gwerth Gorau ei gyflwyno i lywodraeth leol ym mis Ebrill 2000, o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1999.Gosodwyd cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn y modd yr oeddent yn gweithredu, gan ystyried economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Roedd yn ofynnol iddynt gynnal adolygiadau o'u holl gwasanaethau bob pum mlynedd, yn seiliedig ar egwyddorion cymharu, ymgynghori, heriau, ac mewn rhai achosion, cystadleuaeth ymhlith gwasanaethau. Roedd disgwyl iddynt hefyd i gynhyrchu cynlluniau gwella perfformiad, fyddai'n cael eu arolygu gan y Comisiwn Archwilio.

Mae anghenion gwerth gorau wedi newid dros y blynyddoedd a bellach maent wedi eu hymgynnwys gan fwyaf oddi mewn i'r fframwaith perfformiad lleol newydd, gan gynnwys Asesiadau Ardaloedd Trylwyr. Fodd bynnag, mae dyletswydd gwerth gorau yn parhau, ac fe erys yr egwyddorion hynny yn ran hanfodol o'r fframwaith newydd hwnnw.

Egwyddorion Gwerth Gorau

Wedi ystyried y model llywodraeth leol, ond gan gadw mewn cof hefyd anghenion unigryw y gwasanaeth prawf, rydym wedi llunio cynigion ynghylch sut ddylai Gwerth Gorau weithio.

Pwrpas Gwerth Gorau yw caniatáu i fyrddau ac ymddiriedolaethau prawf i benderfynu ble mae angen cyflwyno gwelliannau i'w gwasanaethau.Nid trosglwyddo gwaith y gwasanaeth prawf y tu hwnt i'r sector gyhoeddus yw pwrpas gwerth gorau. Canlyniad yr adolygiad fydd yn penderfynu a yw hynny i ddigwydd ai peidio.

Mae Gwerth Gorau yn broses fydd yn galluogi ardaloedd prawf i arddangos ac i yrru cyflwyniad effeithiol ac effeithlon. Drwy eu galluogi i ddysgu oddi wrth arfer dda mewn mannau eraill a dangos arloesedd wrth gyflwyno gwasanaethau, anelir i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y cyflwynir gwasanaethau i'r troseddwr. Bydd yn gweithredu fel erfyn i arddangos, mewn dull tryloyw, safonau ansawdd a newidiadau mewn lefelau perfformiad, er mwyn dynodi meysydd sy'n perfformio'n wael, dynodi arfer gorau, a helpu'r broses o wneud- a chadarnhau- penderfyniadau a gweithrediadau a gyrru atebolrwydd cryfach.

Mecanwaith unigol yw Gwerth Gorau fydd yn berthnasol i'r holl wasanaethau ariennir gan fyrddau ac ymddiriedolaethau prawf, gan gynnwys y rhai hynny a gyflwynir mewn lleoliadau canolfannau cadw, waeth bynnag sut caiff y rhain eu cyflwyno(gan y sector gyhoeddusa, y sector breifat, neu'r trydydd sector) neu os ydynt yn agored i gystadleuaeth. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn cynrychioli nifer o ofynion ar fyrddau ac ymddiriedolaethau prawf i arddangos a gyrru gwerth am arian eu gwasanaethau, i feincnodi a chymharu eu perfformiad a'u modelau cyflwyno gwasanaeth cyfredol gydag eraill, ac ymchwilio i'r potensial o ran gwella effeithioldeb ac effeithlonrwydd, yn seiliedig ar heriau trylwyr. Pwy bynnag fydd yn cyflwyno'r gwasanaeth, mater i'r bwrdd neu'r ymddiriedolaeth prawf yn y maes prawf perthnasol yw cynnal yr adolygiad Gwerth Gorau, er y byddai isgontractwyr yn gorfod cymryd rhan ynddynt a chyfrannu atynt, fel bo'n briodol. Byddai hyn yn ofyniad mewn contractau newydd a Chytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG); ac yn hanes contractau cyfredol a CLG, byddai darparwyr yn eu hannog i gymryd rhan.

Mae gweddill y ddogfen hon yn amlinellu ein cynigion ynghylch sut y byddai Gwerth Gorau yn gweithio. Unwaith y mae'r fframwaith wedi ei orffen, bydd NOMS, ynghyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn cyhoeddi rhagor o arweiniad ar brosesau Gwerth Gorau. Fodd bynnag, awgrymwn y dylid seilio'r broses ar bum pennawd- y pedwar sydd wedi bod ar waith mewn llywodraeth leol ac un newydd. Dyma nhw:

Herio: Byddai meysydd prawf yn herio'u hunain o ran sut a pham y maent yn cyflwyno'r gwasanaeth.

Ymgynghori: Wrth gynnal yr adolygiadau, byddai ardaloedd prawf yn ymgynghori gyda'r holl randdeiliaid perthnasol.

Cymharu: Byddai ardaloedd prawf yn cymharu eu gwasanaethau a'u perfformiad drwy feincnodi eu hunain yn erbyn eu cyfoedion.[6]

Cystadlu: Byddai'n rhaid i feysydd prawf ystyried a allai gwasanaethau sy'n cystadlu yn eu herbyn ddarparu gwell gwerth am arian.

A'r 'C' newydd:

Cydweithio: Ble bo modd cyflawni gwell gwerth drwy gyflwyno gwasanaethau ar draws ffiniau daearyddol a gweithredol yn hytrach nag oddi mewn i un ardal, dylai meysydd prawf gydweithio â'i gilydd.

Ni ddylai Gwerth Gorau olygu baich ychwanegol sylweddol i ardaloedd prawf. Mae mecanwaith oddi mewn i'r fframwaith er mwyn sicrhau bod y manteision yn gorbwyso'r costau; ar gyfer mwy o fanylion, ewch at yr Asesiad o Effaith a welir ar dudalen 41. Rhagwelwn y byddai meysydd prawf yn integreiddio adolygiadau Gwerth Gorau i'w prosesau rheoli presennol, ac y gallant dynnu ar waith adolygu arall a wnaed ganddynt. Byddai hynny yn eu galluogi i wneud defnydd o unrhyw fecanwaith mesur perfformiad cyfredol. Pwrpas Gwerth Gorau yw gwella'r maes prawf, nid dim ond adrodd yn ôl yn unig.

[Nodiadau:

1. Ar gyfer dibenion rheoli troseddol (gwasanaeth prawf a charchardai, Mae Cymru a Lloegr wedi eu rhannu yn ddeg uned – naw rhanbarth Seisnig a Chymru. Yng ngweddill y ddogfen hon, er mwyn hwylustod, cyfeirir at y deg fel "rhanbarthau" er nad yw Cymru yn ranbarth. Mae newidiadau parhaus i strwythur y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn golygu bod llywodraeth y rhanbarthau hyn yn newid, ond byddant oll gydag amser yn symud tuag at sefyllfa ble y bydd pob un ohonynt yn cael eu harwain gan Gyfarwyddwr Rheoli Troseddol Rhanbarthol. Bydd gweddill y ddogfen hon yn cyfeirio at gyfarwyddwyr rhanbarthol.

2. Mae'r ddogfen hon wedi ei seilio ar y fframwaith Gwerth Gorau sydd wedi bod yn destun trafodaeth anffurfiol gyda rhanddeiliaid. Mae swm a sylwedd y ddwy ddogfen yr un fath. Os hoffech dderbyn copi o'r fframwaith, a wnewch chi ffonio 020 7035 4930 neu bestvalueconsultation@justice.gsi.gov.uk.

3. Bydd yr adolygiadau Gwerth Gorau yn helpu ardaloedd prawf i gyflwyno gwasanaethau neu i gomisiynu'n lleol. Adlewyrchir hyn yn y Fframwaith Cenedlaethol Partneriaethau a Chomisiynu 2008/09, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2008, ac fel ymateb i'r gofyniad yn adran 8 o'r Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007- sef y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cynllun blynyddol ar ddarpariaeth y gwasanaethau prawf. Caiff perfformiad y meysydd prawf, cyflwyno'r gwasanaethau prawf eu hunain neu drwy isgontractio eu hasesu drwy'r Fframwaith Perfformiad Gwasanaethau Prawf Integreiddiedig].

---

[6] h.y. (a thrwy gydol y ddogfen hon) – byrddau ac ymddiriedolaethau eraill

Sut yr awgrymwn y dylai Gwerth Gorau weithio

Yn y tudalennau sy'n dilyn, amlinellir ein fframwaith Gwerth Gorau arfaethedig – sut yr awgrymwn y byddai'n cael ei roi ar waith Byddai'r strwythur sylfaenol fel a ganlyn:

A. – Rhaglen waith genedlaethol fel man cychwyn, gyda'r ganolfan i benderfynu pa wasanaethau y dylid eu hadolygu ac ym mha drefn

B. – Cydlyniad rhanbarthol o'r broses adolygu

C. – Yr adolygiadau eu hunain yn cynnwys tri cham:

i. Casglu'r data cychwynnol.

ii. Meysydd prawf yn meincnodi eu perfformiad yn erbyn perfformiadau eu cyfoedion.

iii. Meysydd prawf yn llunio cynlluniau gwella perfformiad a fyddai'n amlinellu sut y bwriedir gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau yng ngoleuni'r adolygiad.

CH – Gwerthuso, cytuno a gweithredu'r cynlluniau gwella perfformiad.

Isod, cyflwynwn ein cynigion ym mhob un o'r meysydd hyn.

A. Rhaglen Waith Cenedlaethol

Ein nod yw cyn lleied o gyfarwyddyd canolog ag sydd angen er mwyn sicrhau cyflawniad Gwerth Gorau. Rydym am weld proses Gwerth Gorau sy'n ymateb i anghenion rhanbarthol a lleol.

Fodd bynnag, credwn bod angen elfen o gyfarwyddyd canolog ar *y dechrau.* Yn ystod y cyfnod hwn,byddai meysydd prawf yn datblygu'r sgiliau a'r galluoedd Gwerth Gorau angenrheidiol ac fe fyddai cronfa ganolog o ddata meincnodi hefyd yn cael ei sefydlu.

Prif rôl y ganolfan- mewn ymgynghoriad â phob grwp- fyddai sefydlu **rhaglen waith tair blynedd.** Byddai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) , ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi amlinelliad o'r rhaglen hon a fyddai'n manylu ynghylch y nifer o adolygiadau sydd wedi'u cynnal pob blwyddyn. Gan ddibynnu ar y gwasanaeth sy'n cael ei adolygu, byddai'r rhaglen yn berthnasol i bob bwrdd ac ymddiriedolaeth brawf sydd yn darparu'r gwasanaeth hwnnw, neu, o ran potensial, dim ond y rhai hynny mewn rhanbarthau penodol.

Ond ni fyddai'r gwasanaethau hyn yn cael eu dewis ar hap. Cynigwn y byddent yn cael eu dewis gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

i. Beth yw **pwysigrwydd strategol** y gwasanaeth?

Byddai hyn yn cael ei bennu gan NOMS yn unol â blaenoriaethau strategol y Llywodraeth.

ii. Beth yw'r potensial o ran cynyddu **effeithiolrwydd** y gwasanaeth i'r troseddwr?

Byddai hyn yn cael ei sefydlu gan yr ystod o amrywiaeth rhwng ardaloedd prawf ar ddeilliannau wedi'u cyflawni ac ar gynaladwyaeth deilliannau; lefel y cwmpas o ran uno gwasanaethau gyda phartneriaid oddi mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol; hyd a lled y gorgyffwrdd gyda'r hyn y mae darparwyr gwasanaeth eraill (er enghraifft, iechyd) yn eu cyflwyno; a'r cwmpas ar gyfer arloesedd (er enghraifft, partneriaethau).

iii. Beth yw'r potensial o ran cynyddu **effeithlonrwydd** y gwasanaeth?

Byddai hyn yn yn dibynnu ar y gwariant ar y gwasanaeth; yr ystod o amrywiaethau rhwng ardaloedd prawf yn eu gwariant ar wasanaeth; os yw arloesedd yn y gwasanaeth yn bosib; a'r cwmpas ar gyfer mwy o gydweithio.

iv. A oes **cymhwysedd** ar gyfer adolygu'r gwasanaeth?

Byddai hyn yn cael ei bennu gan y sgiliau a'r adnoddau fyddai gan feysydd prawf ar gyfer cynnal adolygiadau; gan gynnwys y cwmpas ar gyfer cynnwys adnoddau fel rhan o hyn.

v. A fydd **manteision** yr adolygiad yn gorbwyso'r **costau**?

Byddai hynny'n cael ei bennu gan fodelu'r dychweliad ar fuddsoddiad wrth gynnal adolygiad Gwerth Gorau o'r gwasanaeth sy'n cael ei ystyried.

Wrth gymryd golwg gyffredinol yn seiliedig ar y pum maen prawf, byddai penderfyniad yn cael ei wneud a ddylid adolygu gwasanaeth neu beidio. Ni fyddai dim o hyn yn rhwystro rhanbarthau na ardaloedd prawf rhag cynnal adolygiadu eu hunain o wasanaethau ychwanegol os dewisant wneud hynny.

Rydym hefyd yn cynnig y dylai NOMS, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyflwyno manylebau gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pob un o'r gwasanaethau i'w hadolygu, gan dynnu ar SLA presennol, contractau a safonau cenedlaethol. Byddai'r rhain yn diffinio'r safonau isafswm y disgwylid i wasanaeth ei gyrraedd o ran perfformiad, economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Cwestiynau:[7]

1. **<u>Ar y dechrau,</u> ydych chi'n cytuno y dylai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ddewis y gwasanaethau i'w hadolygu gan y meysydd prawf dros dair blynedd? YDW / NAC YDW**

   Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch hyn?

2. **Os ydych yn cytuno â chwestiwn 1, faint mwy o wasanaethau y tybiwch chi y dylid eu hadolygu ym mhob blwyddyn o'r rhaglen?**

3. **Os ydych yn cytuno â chwestiwn 1, ydych chi'n cytuno y dylid dewis y gwasanaethau i'w hadolygu ar sail [ticiwch y rhai hynny yr ydych yn cytuno â hwy]:**

i. **Pwysigrwydd strategol y gwasanaeth?**

ii. **Y potensial i gynyddu effeithiolrwydd y gwasanaeth?**

iii. **Y potensial i gynyddu effeithlonrwydd y gwasanaeth?**

iv. **Cymhwysedd y byrddau a'r ymddiriedolaethau i adolygu'r gwasanaeth?**

v. **Manteision yr adolygiad yn gorbwyso ei gostau?**

vi. **Ac ydych chi o'r farn bod unrhyw feini prawf eraill y dylid eu hystyried?**

4. **Os ydych yn cytuno â chwestiwn 1, pa wasanaethau a ddylid eu hadolygu yn y flwyddyn gyntaf yn eich tyb chi, a pha rai y dylid eu hadolygu yn yr ail flwyddyn?**

---

[7] Gellid llenwi ymatebion fan hyn a'u dychwelyd fel copi caled neu drwy ffacs, neu fe ellid eu llenwi ar yr holiadur Word sydd ynghlwm wrth y ddogfen hon, ble mae modd ymestyn y blychau sylwadau a'u dychwelyd yn electronig, drwy ffacs neu fel copi caled. Mae croeso i ymatebwyr hefyd greu eu dogfennau ymateb eu hunain.

5. Ydych chi'n cytuno y dylai NOMS, ynghyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyflwyno manylebau gwasanaeth cenedlaethol ar berfformiad, economi ac effeithiolrwydd ar gyfer y gwasanaethau i'w hadolygu? YDW / NAC YDW

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch hyn?

Fodd bynnag, ni fyddem am weld y system rhaglen waith genedlaethol yn para'n rhy hir. Byddem yn anelu i symud gydag amser tuag at system ble y byddai cyfarwyddwyr rhanbarthol NOMS yn gallu cytuno gyda meysydd prawf pa wasanaethau sydd i'w hadolygu yn y rhanbarth honno. Byddai'n rhaid i ranbarthau barhau i sicrhau eu bod yn cynnal adolygiadau gwerth gorau ac fe fyddai NOMS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyflwyno arweiniad ar y meini prawf y dylent eu defnyddio wrth ddewis y gwasanaethau. Ond byddai modd iddynt ddewis gwasanaethau fyddai'n unol â'u hanghenion eu hunain.

Ni allwn ddweud i sicrwydd pryd y byddem yn symud at y model datganoledig hwn. Bydd Gwerth Gorau yn parhau o dan adolygiad ac fe fyddai'r amser ar gyfer datganoli yn dibynnu ar pa mor dda yr oedd y broses yn gweithio. Fe ellid cynnwys cwmpas ar gyfer cyfarwyddyd canolig i ganolbwyntio mwy ar feysydd prawf nad oedd yn perfformio cystal a llai o sylw'n cael ei roi i'r meysydd hynny oedd yn perfformio'n well.

Cwestiynau

6. Ydych chi'n cytuno â'r uchelgais i symud gydag amser tuag at fodel datganoledig, gyda rhanbarthau yn cytuno â meysydd prawf pa wasanaethau i'w hadolygu yn y rhanbarth, gan ystyried arweiniad cenedlaethol ar sut i wneud y dewisiadau? YDW / NAC YDW

Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y cwestiwn hwn?

7. Os ydych yn cytuno â chwestiwn 6, pryd fyddai'n adeg priodol i symud tuag at fodel mwy datganoledig yn eich tyb chi?

B. Cydlyniad Rhanbarthol

Cynigwn y dylai'r cyfarwyddwyr rhanbarthol (a'u staff) gydlynu'r adolygiadau a gynhelir gan fyrddau ac ymddiriedolaethau prawf yn eu rhanbarth. Byddai cyfarwyddwyr rhanbarthol yn cydlynu rhaglenni gwaith rhanbarthol, gan sicrhau bod adolygiadau o'r gwasanaethau cenedlaethol hynny sydd wedi eu pennu yn digwydd ar adegau tebyg ar draws y rhanbarth, er mwyn galluogi meincnodi rhwng ardaloedd prawf.

Cynigwn hefyd y dylai'r cyfarwyddwyr rhanbarthol allu negydu a chytuno ar unrhyw amrywiaethau angenrheidiol i'r manylebau gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer ardaloedd prawf, er mwyn cydnabod gwahaniaethau rhanbarthol.

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno y dylai rhanbarthau NOMS

i. Gydlynu'r adolygiadau a gynhelir gan y meysydd prawf yn eu rhanbarth gan sicrhau eu bod yn digwydd ar adegau tebyg i'w gilydd? YDW / NAC YDW

ii. Negydu a chytuno unrhyw amrywiaethau angenrheidiol i fanylebau gwasanaeth cenedlaethol gyda'r ardaloedd prawf? YDW / NAC YDW

Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y cwestiwn hwn?

C. Y Broses Adolygu

Unwaith y mae'r rhaglen waith wedi ei osod gan y ganolfan a'r amserlen ar gyfer yr adolygiadau oddi mewn i ranbarth wedi ei gytuno rhwng cyfarwyddwyr rhanbarthol ac ardaloedd prawf, byddai'r olaf yn cynnal yr adolygiadau Gwerth Gorau. Cynigwn y dylid cynnwys thri cham fel rhan o'r broses hon:

Cam i – Casglu'r data cychwynnol

Gyda'r cam hwn, byddai meysydd prawf yn darganfod gwybodaeth er mwyn eu galluogi i gwestiynnu eu **Gwasanaethau** yn fewnol.

Byddai ardaloedd prawf yn cynnal adolygiad o'r gwasanaeth dan sylw. Byddent yn:

- Casglu data er mwyn pennu costau uned y gwasanaeth. Cost yr uned yw'r swm o arian y mae'n ei gostio i gyflwyno gwasanaeth penodol i droseddwr penodol, yn erbyn manyleb sydd wedi ei roi.

- Dynodi unrhyw elfennau o ryngddibyniaeth wrth gyflwyno'r gwasanaeth- ac a yw gwasanaeth yn dibynnu ar weithredoedd partner arall.

- Dynodi pa adnoddau oedd eu hangen ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth ar bob cam o'r broses.

- A defnyddio'r holl wybodaeth hon i'w galluogi hwy i **Gwestiynnu**'u perfformiad yn erbyn y manyleb cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth.

Wrth ymwneud â hyn oll, dylai meysydd prawf Ymgynghori â'u cyfoedion i weld a fyddai'n fwy cost effeithiol i gynnal adolygiadau ar y cyd, ac os mai felly y mae pethau, dylent drefnu **Cyd-weithio**.

Mae'n bosib yr hoffai meysydd prawf holi eu archwilwyr mewnol (neu Timau Rheoli Archwiliad) i gefnogi adolygiadau ar eu rhan. Mae'n bosib hefyd yr hoffent holi eu pwyllgor archwilio i ddilysu darganfyddiadau'r adolygiad.

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'n cynigion o ran sut ddylai'r ardaloedd prawf gynnal cam cyntaf (casgliad data cychwynnol) yr adolygiadau Gwerth Gorau? YDW / NAC YDW

Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y cwestiwn hwn?

Cam ii – Meincnodi

Pwrpas hyn yw gweld meysydd prawf yn **Cymharu** eu perfformiad â'u cyfoedion . Awgrymwn y dylai weithio fel a ganlyn:

- Byddai ardaloedd prawf yn danfon y data yr oeddent wedi ei gasglu yn Cam i ymlaen i NOMS

- Byddai'r data yn cael ei gasglu ynghyd ac fe fyddai ar gael i bob maes prawf. Byddai NOMS, ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn cynnig arweiniad ynghylch pa fath o ddata a ddylid ei wneud yn gyhoeddus. Byddai'r arweiniad hwn yn cynnwys ystyriaethau ar gyfer data sydd yn

fasnachol sensitif, yn enwedig ble bo isgontractwyr a phartneriaid dan sylw.

- Gan ddefnyddio'r data hwnnw, byddai meysydd prawf wedyn yn **Cymharu** eu costau uned a'u deilliannau terfynol gyda deilliannau meysydd perthnasol eraill.

- Unwaith bo'r cymhariaethau hynny wedi'u gwneud, byddent wedyn yn **Ymgynghori** ynghylch y rhesymau dros yr amrywiaethau rhwng eu data hwy a data meysydd prawf eraill. Byddent wedyn yn **Herio:**

- eu perfformiad

- Oes angen cyflwyno'r gwasanaeth o gwbl

- sut y gallent wella eu dyraniad o adnoddau ar draws y gwahanol brosesau sydd eu hangen i gyflwyno'r gwasanaeth

- a allent gyflwyno'n fwy effeithiol drwy **Gydweithio** â meysydd prawf eraill

- a allent wella sut y maent yn cyflwyno eu gwasanaethau a/neu gyflawni arbedion effeithlon

  Ac ymchwilio sut y gellid cyflwyno'r gwasanaeth, neu ran o'r gwasanaeth pe bai hynny yn nwylo darparwr allanol.

Cwestiynau:

10. Ydych chi'n cytuno y dylai meysydd prawf ddarparu'r data cychwynnol o'u hadolygiadau Gwerth Gorau ar gyfer NOMS, ac y dylid eu casglu a sicrhau eu bod ar gael i bob ardal brawf er mwyn hwyluso cymhariaeth? YDW / AC YDW

Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch hyn?

11. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion o ran sut dylai'r meysydd prawf gwestiynnu'r modd y maent yn cyflwyno'r gwasanaeth? YDW / NAC YDW

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch hyn?

Cam iii – Y cynllun gwella perfformiad

Yn seiliedig ar yr holl wybodaeth uchod byddai byrddau ac ymddiriedolaethau prawf wedyn yn drafftio **cynlluniau gwella perfformiad.** Byddai'r rhain yn esbonio sut y bwriadant wella eu gwasanaethau yng ngoleuni'r adolygiad Gwerth Gorau.

Awgrymwn y dylai'r cynlluniau gwella perfformiad gynnwys:

- Manylion ynghylch sut y byddai'r ardal brawf yn cyflawni gwelliannau mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

- Cynigion ar sut y byddai modelau cyflwyno gwasanaethau yn newid. Fe all hyn gynnyws, neu beidio á chynnwys **Cystadleuaeth** am y gwasanaeth, ond byddai'n rhaid i'r ardal brawf roi ystyriaeth lawn i'r opsiwn hwn.

- Asesiad o Effaith Cyfartaledd.

Wrth lunio'r cynlluniau gwella perfformiad, dylai meysydd prawf gyflawni'r canlynol:

- **Ymgynghori**, gyda rhanddeiliaid priodol, fel bo hynny'n briodol. Byddai hyn yn eu galluogi hwy i ddysgu o arfer dda mewn mannau eraill.

- Ystyried **Cydweithio** gyda meysydd prawf eraill i wella eu gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd.

- **Herio'n** fewnol a ydynt yn gweithio ar y lefel mwyaf effeithlon a dynodi gwelliannau potensial, gan ystyried materion cyfartaledd ac amrywiaeth.

- Dynodi gwelliannau i'r gwasanaeth a ellid eu cyflawni pe bai **Cystadleuaeth** amdano yn y farchnad neu'n cael ei gyflwyno ar y cyd gyda darparwr arall

- Dysgu o brofiad eu cyfoedion yn y maes gwella perfformiad, ac arfer dda yn benodol.

- Gosod amserlen ar gyfer gweithredu'r cynllun.

- Amlinellu'r costau a'r buddion disgwyliedig wrth weithredu'r cynllun.

Eto, mae'n bosib yr hoffai meysydd prawf gynnwys eu pwyllgorau archwilio wrth ddilysu'r adroddiadau.

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer cynlluniau gwella perfformiad? YDW / NAC YDW

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch hyn?

CH. Symud Gwelliannau yn eu Blaen

Mae'n rhaid i'r cynlluniau gwella perfformiad fod yn ddogfennau cadarn sy'n mynd i'r afael yn iawn â chanlyniadau'r adolygaidau Gwerth Gorau ac yn ystyried pob opsiwn ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.

Cynigwn y dylai cyfarwyddwyr rhanbarthol NOMS ystyried a yw'r newidiadau a gynigir yn briodol, yn bosib eu cyflawni, ac yn gynaladwy o gofio amgylchiadau unigryw y maes prawf. Wrth wneud hyn, awgrymwn y dylent ddefnyddio cyfres o feini prawf gwerthuso a ddatblygwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Byddent yn chwilio am dystioaeth bod darpariaeth allanol wedi ei ystyried a bod Asesiad o Effaith Cyfartaledd wedi ei gynnal, pe bai hynny'n briodol. Byddai'r **meini prawf gwerthuso** hyn yn caniatáu i'r cyfarwyddwr rhanbarthol ymchwilio i'r broses a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad, i scriwtineiddio'r canlyniadau a ddeuthpwyd iddynt a gwerthuso'r cynllun gwella perfformiad.

Byddai'r meini prawf gwerthuso yn cael eu cyflwyno ar ffurf arweiniad gan y ganolfan. Byddent yn cynnwys yr angen i ardaloedd prawf fod wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r elfen o weld **Cystadleuaeth** am y gwasanaeth. Os hoffent wneud hynny, gallai gyfarwyddwyr rhanbarthol ddefnyddio Timau Rheoli Archwilio i'w helpu gwerthuso'r cynlluniau yn erbyn y meini prawf gwerthuso, onibai fod gan y timau hynny eisoes ran wrth weithredu'r adolygiad. Mae'n bosib hefyd yr hoffent gael y sicrwydd meddwl a ddarperir drwy unrhyw waith perthnasol a wnaed gan archwilwyr allanol yr ardal brawf.

Wrth werthuso'r cynllun gwella perfformiad, dylai'r cyfarwyddwr rhanbarthol fod mewn deialog cyson â'r maes prawf. Dylai hyn eu galluogi i gytuno ar gynllun gwell perfformiad terfynol, fydd wedyn yn cael ei berchnogi gan y maes prawf a'i symud yn ei flaen.

Sut bynnag, mewn ambell i achos ni fydd yn bosib cyrraedd cytundeb cychwynnol. Mewn achosion felly, cynigwn y dylai NOMS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hwyluso ffordd ymlaen.

Bydd y maes prawf wedyn yn rhoi'r cynllun gwella perfformia ar waith, boed hynny yn cynnwys gwelliannau i gyflwyno gwasanaethau mewnol, neu gyflwyno cystadleuaeth i'r gwasanaeth. Byddent yn monitro ei effaith, er mwyn sicrhau bod y broses o gyflwyno'r gwasanaeth wedi gwella, bod y buddion bwriededig wedi eu gwireddu a bod buddion y gweithrediad wedi gorbwyso'r costau. Byddai ardaloedd prawf hefyd yn cynnig adborth i NOMS ac i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a fyddai'n eu galluogi hwy, pe bai angen, i ddiweddaru'r fframwaith Gwerth Gorau a manylebau gwasanaethau cenedlaethol.

Cwestiynau:

13. A ydych yn cytuno y dylai'r cyfarwyddwyr rhanbarthol werthuso'r cynlluniau gwella perfformiad draft, yn unol â meini prawf gwerthuso sydd wedi eu gosod yn ganolog? YDW / NAC YDW

Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch hyn?

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'n bwysig fod y fframwaith Gwerth Gorau yn rhoi sylw i'r holl faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth potensial. Cynigiwn felly fod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu gwreiddio yn y fframwaith fel a ganlyn:

i. Dylai'r manylebion gwasanaeth cenedlaethol gynnwys gofynion ynglŷn â chydraddoldeb ac amrywiaeth, lle bo hynny'n berthnasol.

ii. Dylai **ymgynghori** yn ystod y broses Gwerth Gorau gynnwys yr holl grwpiau rhanddeiliaid perthnasol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl faterion amrywiaeth perthnasol yn cael eu hystyried, gan gynnwys rhai'n ymwneud ag anabledd, oed, rhyw, crefydd neu gred, tueddiad rhywiol neu hil, ynghyd ag ystyriaethau eraill fel anabledd dysgu a thrin troseddwyr a chyn-droseddwyr yn deg.

iii. Pan fydd ardaloedd prawf yn **cymharu** eu perfformiad gydag ardaloedd eraill, dylent ystyried materion cydraddoldeb a dysgu o'r ffordd y mae ardaloedd eraill yn trin materion amrywiaeth.

iv. Yn ystod y cam **herio**, dylai ardaloedd prawf dalu sylw arbennig i sicrhau nad yw eu hymdrechion i gyflawni Gwerth Gorau yn cael effaith negyddol ar amrywiaeth. Nid yr opsiwn darparu mwyaf effeithlon yw'r un mwyaf effeithiol i bob rhanddeiliad bob amser. Felly, mae angen ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth – drwy wneud Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – wrth lunio cynlluniau gwella perfformiad. Wrth graffu ar y cynlluniau, dylai cyfarwyddwyr rhanbarthol sicrhau bod y materion hyn wedi cael eu hystyried.

v. Pan fydd gwasanaeth yn cael ei **gystadlu**, dylid asesu effaith unrhyw newidiadau i'r model darparu gwasanaeth ar yr ystod llawn o grwpiau defnyddwyr.

Fel gyda gweddill y fframwaith, bydd manylion pellach yn cael eu rhoi mewn canllawiau i ardaloedd prawf fel a gyhoeddir gan NOMS, ynghyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno â'r cynigion i ymgorffori materion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y fframwaith? YDW / NAC YDW

A oes gennych unrhyw sylwadau ar hyn?

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n rhan o'r Asesiad o Effaith ar dudalen 41) yn egluro ein meddwl ar y mater hwn ymhellach.

Cystadlu

Mae mwy nag un canlyniad llwyddiannus i adolygiad Gwerth Gorau. Nod gweithrediad llwyddiannus Gwerth Gorau fydd gwella perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau, o ran eu heconomi, effeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd, p'un ai y gwneir hynny drwy'r darparwyr gwasanaeth presennol neu rai newydd – o ba sector bynnag y dônt. Mae Gwerth Gorau yn niwtral o ran contractio allan.

Mae Gwerth Gorau yn gam i ffwrdd o gontractio allanol ar sail targedau, ac felly ni fydd nifer na gwerth y gwasanaethau a gontractir allan yn faen prawf llwyddiant.

Ond bydd Gwerth Gorau yn hwyluso penderfyniadau gwybodus, tryloyw, dilys a haeddiannol ynghylch a ddylid cystadlu gwasanaethau neu beidio. Disgwylir i wasanaethau sy'n cael eu hadnabod drwy adolygiadau Gwerth Gorau i fod yn perfformio'n wael – o dan drothwy wedi'i ddiffinio gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, drwy weithio â NOMS – orfod cystadlu[8], ar ôl cyflawni dadansoddiad cost a budd o wneud hynny.

[8] Bydd manylion ar sut y bydd y trothwy yn cael ei sefydlu yn cael eu datblygu ar ôl penderfynu'n derfynol ar y fframwaith.

Materion Gweithlu

Lle gwneir penderfyniad i gontractio gwasanaethau allan, bydd materion gweithlu'n cael eu hystyried ym mhob cam o'r broses gaffael: cyn-gymhwyso, manylebion gwasanaeth, gwahoddiad i dendro a gwerthuso'r tendr. Bydd yn rhaid i ymddiriedolaethau a byrddau prawf ystyried:

- Y cysylltiad rhwng ansawdd y gwasanaeth a thrin materion gweithlu. Mae gwasanaeth o ansawdd yn dibynnu ar weithlu cymwys, medrus gyda chymhelliad cryf. Gall esgeuluso materion gweithlu perthnasol i gadw costau'n isel gael effaith andwyol ar ansawdd a'r gwerth am arian a geir o'r gwasanaeth.

- Perthnasedd cyfle cyfartal i sut y darperir y contractau.

- Pwysigrwydd trin Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ('TUPE') yn dda, er mwyn tawelu unrhyw bryderon gan y gweithlu ynghylch trosglwyddo i gyflogwyr newydd.

- Cymhwyso'r Côd Ymarfer ar Drosglwyddo Staff yn y Sector Cyhoeddus.

- Cymhwyso Côd Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar Faterion Gweithlu mewn Contractau Sector Cyhoeddus.

- Gallu'r contractwr i reoli iechyd a diogelwch.

- Bod angen ymgynghori a rhannu gwybodaeth â'r staff a'r Undebau Llafur ym mhob cam o'r broses gaffael, gan gynnwys gwahodd Undebau cydnabyddedig i drafod materion cyflogaeth perthnasol gyda bidwyr sydd wedi eu rhoi ar y rhestr fer.

Sylwadau Cyffredinol

15: Yn gyffredinol, a ydych yn cytuno mai'r fframwaith hwn yw'r ffordd orau o weithredu Gwerth Gorau? YDW / NAC YDW

A oes gennych unrhyw sylwadau?

16: A oes gennych unrhyw sylwadau pellach neu gyffredinol i'w gwneud ar ein cynigion?

Mae'r siart llif ar y dudalen nesaf yn crynhoi sut y byddai'r fframwaith arfaethedig yn gweithio.


Dylunio'r rhaglen Gwerth Gorau
A
Cydlynu'r adolygiadau
B
Cytuno ar amrywiadau lleol
C
Ymgynghori, herio a chydweithio
Cyflawni'r adolygiadau - casglu data
D
Cymharu a herio
Cyflawni'r adolygiadau - meincnodi
E
Cynllun Gwella Perfformiad Drafft
F
Gwerthuso'r Cynllun Gwella Perfformiad
G
Cydweithio
Gweithredu'r Cynllun Gwella – aros gyda'r darparwr presennol
H
neu
Cystadlu
Gweithredu'r Cynllun Gwella – cystadlu
I
Mesur effaith y cynllun perfformiad
J
Awgrymu gwelliannau i'r broses Gwerth Gorau

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a ofynnir yn y papur ymgynghorol hwn.

1. **A ydych yn cytuno, <u>ar y dechrau</u>, y dylai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ddewis pa wasanaethau sydd i'w hadolygu gan ardaloedd prawf dros dair blynedd? A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ar hyn?**

2. **Os ydych yn cytuno â chwestiwn 1, faint o wasanaethau ydych yn meddwl ddylai gael eu hadolygu ym mhob blwyddyn y rhaglen?**

3. **Os ydych yn cytuno â chwestiwn 1, a ydych yn cytuno y dylai'r gwasanaethau sydd i'w hadolygu gael eu dewis ar sail:**

i. **Pwysigrwydd strategol y gwasanaeth?**

ii. **Y potensial i wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol?**

iii. **Y potensial i wneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon?**

iv. **Cymhwysedd y byrddau a'r ymddiriedolaethau i adolygu'r gwasanaeth?**

v. **Bod budd yr adolygiad yn gorbwyso ei gost?**

vi. **Ac a ydych yn meddwl y dylid ystyried unrhyw feini prawf eraill?**

4. **Os ydych yn cytuno â chwestiwn 1, pa wasanaethau ydych yn meddwl ddylai gael eu hadolygu yn y flwyddyn gyntaf a pha rai y dylid eu hadolygu yn yr ail flwyddyn?**

5. **A ydych yn cytuno y dylai NOMS, gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sicrhau bod manylebion gwasanaeth cenedlaethol ar gael ar berfformiad, economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau sydd i'w hadolygu? A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud ar hyn?**

6. **A ydych yn cytuno â'r dyhead i symud dros amser at fodel mwy datganoledig, gyda'r rhanbarthau'n cytuno â'r ardaloedd prawf ar ba wasanaethau i'w hadolygu yn y rhanbarth, a chan ystyried canllawiau cenedlaethol ar sut i'w dewis? A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud ar hyn?**

7. **Os ydych yn cytuno â chwestiwn 6, ar ba bwynt priodol y credwch y dylid symud at fodel mwy datganoledig?**

8. A ydych yn cytuno y dylai rhanbarthau NOMS:

i. Cydlynu'r adolygiadau a wneir gan ardaloedd prawf yn eu rhanbarth, gan sicrhau eu bod yn digwydd ar adegau tebyg?

ii. Negodi a chytuno â'r ardaloedd prawf ynghylch unrhyw amrywiadau angenrheidiol i'r manylebion gwasanaeth cenedlaethol?

A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud ar hyn?

9. A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer sut y dylai ardaloedd prawf weithredu cam cyntaf (casglu data cychwynnol) yr adolygiadau Gwerth Gorau? A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud ar hyn? [Gweler tudalennau 24-25 yn y ddogfen hon]

10. A ydych yn cytuno y dylai ardaloedd prawf sicrhau bod y data cychwynnol o'u hadolygiadau Gwerth Gorau ar gael i NOMS ac y dylid eu casglu a threfnu iddynt fod ar gael i bob ardal brawf er mwyn gallu gwneud cymhariaeth? A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud ar hyn?

11. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer sut y dylai ardaloedd prawf herio sut y darperir y gwasanaeth? A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud ar hyn? [Gweler tudalen 26 yn y ddogfen hon]

12. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer cynlluniau gwella perfformiad? A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud ar hyn? [Gweler tudalen 27 yn y ddogfen hon]

13. A ydych yn cytuno y dylai'r cyfarwyddwyr rhanbarthol werthuso'r cynlluniau gwella perfformiad drafft yn unol â meini prawf gwerthuso a benderfynir yn ganolog? A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud ar hyn?

14. A ydych yn cytuno â'r cynigion i ymgorffori materion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y fframwaith? A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud ar hyn? [Gweler tudalen 30 yn y ddogfen hon]

15. Yn gyffredinol, a ydych yn cytuno mai'r fframwaith hwn yw'r ffordd iawn o weithredu Gwerth Gorau? A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud ar hyn?

16. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach neu gyffredinol i'w gwneud ar ein cynigion?

Mae holiadur ar ffurf Word – a ellir ei ddychwelyd yn electronig – wedi ei gyhoeddi ar-lein gyda'r ddogfen hon.

Diolch yn fawr am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi os gwelwch yn dda

Enw llawn	
Teitl swydd neu ar ba sail yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni / sefydliad (lle bo hynny'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Côd post	
Os byddech yn hoffi inni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	☐ (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon cydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r un uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp a chrynodeb o'r bobl neu'r sefydliad yr ydych yn eu cynrychioli.

Sut i ymateb

Os gwelwch yn dda, anfonwch eich ymateb erbyn 2 Gorffennaf 2008 at:

Jon Neville
Commercial and Competitions Unit (CCU)
National Offender Management Service
3rd Floor, Fry
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ffôn: 020 7035 4930
Ffacs: 020 7035 4844 (at sylw: Jon Neville)
E-bost: bestvalueconsultation@justice.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae copïau papur pellach o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein ar http://www.justice.gov.uk.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau gwahanol drwy anfon e-bost at bestvalueconsultation@justice.gsi.gov.uk neu ffonio 020 7035 4930.

Cyhoeddi'r ymatebion

Byddwn yn cyhoeddi papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 2 Hydref 2008. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein ar http://www.justice.gov.uk.

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau sy'n cynrychioli eraill roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliad y maen nhw'n eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Efallai y bydd gwybodaeth a roddwch wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth hawl gweld gwybodaeth (yn bennaf y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau inni drin y wybodaeth a roddwch inni yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod yna Gôd Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymhlith pethau

eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro inni pam yr ydych yn ystyried y wybodaeth a roddwch inni i fod yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y byddwn yn gallu cadw cyfrinachedd bob tro. Ni fydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system Technoleg Gwybodaeth, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd partïon.

Asesiad o Effaith:

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys yr Asesiad o Effaith yn y cam ymgynghori ar gyfer y polisi hwn, gan gynnwys yr Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Crynodeb: Ymyrryd ac Opsiynau

Adran / Asiantaeth: 1B Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	**Teitl:** Asesiad o Effaith Gwerth Gorau ar y Gwasanaeth Prawf	
Cam: Ymgynghori	**Fersiwn: 7**	**Dyddiad: 31 Mawrth 2008**
Cyhoeddiadau Cysylltiedig: Yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Werth Gorau, yn gynharach yn y ddogfen gyffredinol hon		

Ar gael i'w ddarllen neu i'w lawrlwytho ar:

http://www.justice.gov.uk

Cyswllt ar gyfer ymholiadau: Andrew Lewis **Ffôn: 020 7035 4921**

Beth yw'r broblem dan sylw? Pam fod angen i'r llywodraeth ymyrryd?

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn wynebu mwy a mwy o alwadau ar ei wasanaethau tra'n gorfod gwneud arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd. Heb eu herio, efallai na fydd gan yr ardaloedd prawf gymhellion i arloesi a lleihau eu costau. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod ardaloedd prawf yn canolbwyntio ar gyflawni eu canlyniadau dymunol yn fwy effeithlon ac effeithiol. Rhaid iddi sicrhau bod y gwasanaeth Prawf yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr. Bydd hyn yn helpu i roi canlyniadau gwell i droseddwyr, yn gostwng aildroseddu ac yn cyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau bwriedig?

Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau Prawf a rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr. Yr effeithiau bwriadedig yw:

- Cynnig gwell gwerth am arian i'r trethdalwr wrth ddarparu gwasanaethau Prawf.
- Sicrhau gwasanaethau mwy effeithlon a llai o gostau.
- Gwella sut y darperir y gwasanaethau.
- Canlyniadau mwy effeithiol ac effeithlon i droseddwyr.
- O ganlyniad, llai o aildroseddu a, thrwy hynny, diogelu'r cyhoedd yn well.

Pa opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried? Dylech gyfiawnhau unrhyw opsiwn sydd orau gennych.

Wrth i'r Mesur Rheoli Troseddwyr fynd drwy'r Senedd, dywedodd Gweinidogion bod angen symud i ffwrdd o gyfundrefn gontractio allanol ar sail targedau a thuag at fodel sy'n seiliedig ar egwyddorion gwerth gorau, lle byddai'r darparwr a ddewisir yn un sy'n rhoi'r gwerth gorau, o ba sector bynnag y daw. Felly, ychydig iawn o sgôp sydd i ystyried opsiynau eraill ac mae'r opsiwn 'gwneud dim' wedi'i gynnwys yma fel meincnod i asesu Gwerth Gorau yn ei erbyn.

Pryd fydd y polisi'n cael ei adolygu i sefydlu'r union gostau a buddiannau ynghyd ag a gyflawnwyd yr effeithiau bwriedig neu beidio?

Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n sylweddol gyntaf ar ddiwedd blwyddyn ariannol lawn ei weithrediad.

Cymeradwyaeth derfynol gan y Gweinidog ar gyfer Asesiadau o Effaith yn y cyfnod ymgynghori:

Rwyf wedi darllen yr Asesiad o Effaith ac yn fodlon, o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn rhoi syniad rhesymol o gostau, budd ac effaith debygol y prif opsiynau.

Llofnodwyd gan y Gweinidog sy'n gyfrifol:

.....

Dyddiad:

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Opsiwn Polisi: Gwerth Gorau	Disgrifiad: Adolygiadau Gwerth Gorau gan ardaloedd prawf, ar sail cymharu, herio, ymgynghori, cydweithio a chystadlu.

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL	
Unwaith ac am byth (Wrth drosglwyddo)	Bl.
£ 200,000	1
Cost Flynyddol Gyfartalog (ac eithrio'r gost unwaith ac am byth)	
£ 1.7 miliwn	

Disgrifiad a swm y **costau ariannol allweddol** yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

- Cost cyflawni adolygiadau i'r ardaloedd prawf (staff a threuliau).
- Y gost i NOMS yn ganolog (staff, hyfforddiant, cynhyrchu dogfennau, a threuliau eraill).

Cyfanswm y Costau (gwerth presennol) £

Costau allweddol eraill heb fod yn rhai ariannol yn ôl y 'prif grwpiau a effeithir arnynt'. Y gost o weithredu canlyniadau'r adolygiadau Gwerth Gorau (staff ac eraill), cost cystadlu, cost i ranbarthau NOMS.

BUDDIANNAU

BUDDIANNAU BLYNYDDOL	
Unwaith ac am byth	Bl.
£	
Buddiannau Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio'r gost unwaith ac am byth)	
£	

Disgrifiad a swm y **buddiannau ariannol allweddol** yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'. Amcangyfrifwn y byddai arbedion o £17.1 miliwn **dros dair blynedd**. Gweler y sail dystiolaeth am ddisgrifiad o pam y cyfrifir hyn yn y ffordd yma. Byddai'r buddiannau ar ffurf arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i'r adolygiadau Gwerth Gorau.

Cyfanswm Buddiannau (gwerth presennol) £

Buddiannau allweddol eraill heb fod yn rhai ariannol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'. Gwerth am arian gwell i drethdalwyr, gwasanaethau gwell, canlyniadau gwell i droseddwyr, llai o aildroseddu. Mae'r rhain i gyd yn deillio o welliannau o ganlyniad i'r adolygiadau Gwerth Gorau.

Tybiaethau Allweddol / Ffactorau Sensitifrwydd / Risgiau Mae risg y byddai'r system yn creu anfantais i'r darparwr presennol, oherwydd nid oes rheidrwydd i gystadlu gwasanaeth ar ôl amser neilltuol. Bydd y risg hon yn cael ei lliniaru drwy'r rheidrwydd i brofi gwerth yn erbyn y farchnad.

Blwydd yn Sail Pris	Cyfnod Amser - Blynyddoedd	Ystod Buddiannau Net (Gwerth Presennol Net) £	BUDDIANNAU NET (Amcan gorau o'r Gwerth Presennol Net) £

Dros ba ardal ddaearyddol y mae'r polisi / opsiwn yn weithredol?	Cymru a Lloegr
Ar ba ddyddiad y bydd y polisi'n cael ei weithredu?	Haf / Hydref 2008
Pa sefydliad(au) fydd yn gorfodi'r polisi?	Y Weinyddiaeth
Beth yw cyfanswm cost flynyddol y gwaith gorfodi i'r sefydliadau hyn?	£ Wedi'i chynnwys
A ydyw gorfodi'n cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?	Ydy
A fydd gweithrediad yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd?	Amherthnasol
Beth yw gwerth y mesur gwneud iawn arfaethedig y flwyddyn?	£
Beth yw gwerth unrhyw newidiadau mewn gollyngiadau nwyon tŷ gwydr?	£ Amherthnasol
A fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar gystadlu?	Bydd

Y gost flynyddol (£-£) i bob sefydliad	Meicro	Bach	Canolig	Mawr
A oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn wedi eu heithrio?	Nag oes	Nag oes	Amh.	Amh.

Effaith ar Gost Sylfaenol y Baich Gweinyddol (Prisiau 2005)					(Cynnydd / Lleihad)
Cynnydd o	£	Lleihad o	£	**Effaith Net**	**£**

Allwedd:	**Cost a budd blynyddol: Prisiau Cyson**	**Gwerth Presennol(Net)**

Sail Dystiolaeth (ar gyfer crynodebau)

[Defnyddiwch y gofod hwn (gydag argymhelliad o 30 tudalen ar y mwyaf) i gyflwyno'r dystiolaeth, y dadansoddiad a'r naratif manwl y gwnaethoch gynhyrchu eich opsiynau neu gynigion polisi ar eu sail. Dylech sicrhau bod y wybodaeth wedi'i threfnu fel ei bod yn egluro'r wybodaeth yn y crynodeb ar dudalennau blaenorol y ffurflen hon yn glir.]

Cefndir

Mae gwasanaethau prawf yn cael eu darparu gan 42 o ymddiriedolaethau a byrddau prawf ledled Cymru a Lloegr, wedi eu trefnu'n ddeg rhanbarth (a ddiffinnir i gynnwys Cymru) ac wedi eu cydlynu gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae'n goruchwylio troseddwyr yn y gymuned – rhai sydd â gorchymyn llys (tua 70%) a rhai sydd wedi eu rhyddhau ar drwydded o'r carchar (tua 30%). Mae cyllideb flynyddol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi bod oddeutu £860 miliwn ac mae'n cyflogi tua 20,000 o staff. Ar unrhyw adeg, mae'n goruchwylio tua 200,000 o droseddwyr sy'n oedolion yn y gymuned a, phob blwyddyn, mae'n dechrau goruchwylio tua 175,000 o droseddwyr. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys:

- Goruchwylio gorchmynion cymunedol (a allai gynnwys, er enghraifft, gwaith di-dâl, cyrffyw neu ailsefydlu cyffuriau). Er enghraifft, pob blwyddyn, bydd y gwasanaeth Prawf yn dod o hyd i ac yn goruchwylio tua 8 miliwn awr o waith di-dâl gan droseddwyr mewn cymunedau lleol.
- Paratoi adroddiadau cyn-dedfrydu (tua 250,000 pob blwyddyn) i'r llysoedd.
- Gweithio gyda rhai sydd wedi dioddef troseddau treisgar neu rywiol lle mae'r troseddwr wedi'i ddedfrydu i flwyddyn neu fwy yn y carchar.
- Trefnu hosteli cymeradwy i letya, er enghraifft, troseddwyr sydd wedi eu rhyddhau o'r ddalfa. Mae tua 100 o hosteli prawf cymeradwy.[9]

Y Sbardun ar gyfer Newid

Gwasanaeth cyhoeddus yw'r gwasanaeth Prawf, er bod yr ymddiriedolaethau a'r byrddau weithiau'n contractio gwasanaethau allan i ddarparwyr preifat a rhai trydydd sector. Mae'r gwasanaeth prawf yn wynebu sefyllfa lle mae mwy a mwy o alwadau arno tra'n gorfod dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd o 3% y flwyddyn tan 2011 ar yr un pryd. Mae angen cymhelliad ar ardaloedd prawf i gyflawni eu canlyniadau dymunol yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gan fod gwasanaethau prawf yn cael eu cyllido gan y trethdalwr, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod eu darparwyr yn rhoi'r gwerth gorau posibl am arian tra'n darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau prawf effeithiol ac effeithlon sy'n rhoi

[9] Am fanylion pellach, ewch i wefan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn – www.probation.homeoffice.gov.uk.

canlyniadau gwirioneddol i droseddwyr, yn gostwng aildroseddu ac sydd er budd i'r trethdalwyr sy'n cyllido'r gwasanaeth.

Yn 2007/08, daeth yn ofynnol i fyrddau prawf gwrdd â tharged o gontractio 10% o'u gwasanaethau i ddarparwyr allanol, mewn ymgais i wella lefel y cystadlu a gwella canlyniadau i droseddwyr. Wrth i'r Mesur Rheoli Troseddwyr fynd drwy'r Senedd, dywedodd Gweinidogion fod angen symud i ffwrdd o system contractio allanol ar sail targedau at fodel sy'n seiliedig ar egwyddorion gwerth gorau, lle byddai'r darparwr a ddewisir yn un sy'n rhoi'r gwerth gorau, o ba sector bynnag y daw.

Yng ngoleuni hyn a'r ffaith bod angen sicrhau bod y gwasanaeth Prawf yn rhoi gwerth am arian, bydd system Gwerth Gorau'n cael ei chyflwyno. Byddwn yn asesu opsiwn o 'wneud dim' er mwyn cael y data cychwynnol i asesu'r polisi Gwerth Gorau yn ei erbyn. Rydym yn trafod y math o gyfundrefnau gwerth gorau y gellid eu gweithredu isod.

Yr Ongl Llywodraeth Leol

Mae'r system Gwerth Gorau, sy'n cael ei hasesu yn yr Asesiad o Effaith hwn, wedi'i hysbrydoli gan system o'r un enw sydd wedi'i defnyddio gan lywodraeth leol ers mis Ebrill 2000, ar ôl pasio Deddf Llywodraeth Leol 1999. Er bod nifer o wahaniaethau rhwng ein model arfaethedig ni a'r un llywodraeth leol, maen nhw hefyd yn debyg iawn, ac felly bydd y costau a'r buddiannau sy'n deillio o ganlyniad i'r system llywodraeth leol yn rhoi rhywfaint o syniad inni o effeithiau posibl system Gwerth Gorau ar gyfer y gwasanaeth Prawf.

Nid ymddengys bod unrhyw broffil cost / budd cenedlaethol, systematig ar gyfer y gyfundrefn gwerth gorau a ddefnyddir gan lywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth berthnasol yn rhoi syniad da o sut y cafodd y buddiannau eu mesur yn erbyn y costau. Mae'n glir bod nifer o awdurdodau lleol yn credu bod y gyfundrefn gwerth gorau yn rhoi cryn faich o ran adnoddau arnynt. Fel y dywedodd y Comisiwn Archwilio yn 2001, *'Gall [Adolygiadau Gwerth Gorau] fod yn brosiectau hir, anodd a thrwm ar adnoddau. Mae'n bwysig bod cynghorau'n cynllunio sut i gynnal momentwm ar ôl cwblhau'r adolygiad.'* [10] Mewn adroddiad arall o'r un flwyddyn, dywedodd 95% o'r awdurdodau lleol a holwyd fod gweithredu gwerth gorau yn cyflwyno cryn her iddynt.[11] Yn ôl adroddiad ddwy flynedd yn ddiweddarach, roedd gwerth gorau wedi arwain at fwy o fiwrocratiaeth.[12] Roedd amser staff yn

[10] 'Changing Gear – Best Value Annual Statement 2001', Y Comisiwn Archwilio, Medi 2001, t.25.

[11] 'Best Value in English Local Government – Summary Results from the Census of Local Authorities in 2001 – adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer [cyn] Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog gan G. Enticott, R.M. Walker, G.A. Boyne, S. Martin 6 ac R. Ashworth, ar ran y Tîm Ymchwil yn Ysgol Fusnes Caerdydd, adran 3.2

[12] 'Evaluation of the long-term impact of the Best Value regime: Baseline report (Executive Summary)' – Prifysgol Caerdydd / Y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Llywodraeth Leol a Rhanbarthol, Mai 2003, t.viii.

adnodd allweddol a dywedodd amryw o'r staff fod gwerth gorau wedi gwneud eu llwyth gwaith yn sylweddol drymach.[13]

Roedd rhai o'r costau uchel hyn yn deillio o'r ffyrdd arbennig yr oedd cynghorau'n cyflawni eu gweithgareddau. Gallai ochr 'gymharu' gwerth gorau fod yn drwm ar adnoddau, oherwydd bod cynghorau'n ceisio dod o hyd i ddata priodol i gymharu eu hunain yn eu herbyn.[14] Hefyd, roedd nifer o awdurdodau lleol, ar y dechrau o leiaf, yn dueddol o adolygu gormod o wasanaethau ar y tro, gan achosi costau uchel a mwy o drafferth cael budd o wneud hynny.[15] Roedd gweithredu'r camau a ddeilliodd o adolygiadau gwerth gorau ar yr un pryd â gweithredu adolygiadau newydd weithiau'n arwain at orymestyn.[16] Yn olaf, ystyriwyd bod y broses arolygu yn costio'n sylweddol.[17]

Er hynny, roedd adolygiadau gwerth gorau yn dal i roi arbedion effeithlonrwydd. Barnodd y Comisiwn Archwilio yn 2001 y byddai hanner yr adolygiadau gwerth gorau a wnaed 'yn bendant' neu 'mae'n debyg' yn arwain at wasanaethau gwell.[18] Yn ôl astudiaeth arall o'r un flwyddyn, roedd nifer o adolygiadau wedi arwain yn uniongyrchol at wella gwasanaethau a / neu arbedion cost. Dywedodd 24% o'r cynghorau a holwyd eu bod wedi cynhyrchu arbedion o lai na £150,000, dywedodd 29% eu bod wedi arbed rhwng hynny a miliwn o bunnau, a dywedodd 12% eu bod wedi arbed mwy fyth, er bod 35% yn dweud na wnaethant unrhyw arbedion o gwbl.[19] Mewn adroddiad gwerthuso diweddarach, barnwyd bod 42 o'r 61 o adolygiadau gwerth gorau yr edrychwyd arnynt wedi arwain at gyflwyno newid sefydliadol sylweddol.[20] Er enghraifft, fel a nodir yn yr adroddiad cynharach, llwyddodd Bwrdeistref Lewisham yn Llundain i wneud arbedion o £500,000 yn ei wasanaeth refeniw a buddiannau.[21] Roedd gwelliannau gwasanaeth eraill, nad oedd o

---

[13] 'Improving Public Services: Evaluation of the Best Value Pilot Programme – Final report – Executive Summary' – Y Ganolfan Llywodraeth Leol, Ysgol Fusnes Warwick, Prifysgol Warwick, ar gyfer [cyn] Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, Ionawr 2001, t.13.

[14] 'Changing Gear', t.19.

[15] Er enghraifft: *Ibid.*, t.13.

[16] 'Improving Public Services', t.7.

[17] Er enghraifft, 'Summary Results', adran 3.5.

[18] 'Changing Gear', t.7.

[19] 'Improving Public Services', t.6.

[20] 'The long-term evaluation of the Best Value regime: Final Report' – Y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Llywodraeth Leol a Rhanbarthol, Prifysgol Caerdydd, ar gyfer yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Tachwedd 2006, t. 56.

[21] 'Improving Public Services', t.6.

anghenraid yn cael eu mynegi yn nhermau arbed costau, yn aml yn cael eu gwneud. Er enghraifft, llwyddodd Cyngor Sir Surrey i wella ei ddefnydd o adeiladau cymunedol drwy gael gofalwr (adeiladau) ar y cyd.[22]

Mae gwerthusiadau cost a budd, felly, yn amrywio. Roedd 45% o'r rhai a holwyd ar gyfer adroddiad yn 2001 o'r farn y byddai'r enillion o'r adolygiadau yn gorbwyso cost gweithredu Gwerth Gorau. Dywedodd yr adroddiad hefyd fod llawer o'r costau yn rhai sefydlu, a ddylent leihau dros amser.[23] Ond nid oes unrhyw dystiolaeth mai dyma oedd y profiad yn gyffredinol ac ymddengys fod y baich costau wedi bod yn o drwm.

Cynnig

Yma, byddwn yn darparu dadansoddiad cost a budd o'r prif gynnig, ac yn dangos sut y mae'n newid ar gyfer y ddau amrywiad ar y cynnig hwnnw.

Y cynnig hwnnw yw cyflwyno system Gwerth Gorau i'r gwasanaeth Prawf. Mae'n rhannol seiliedig ar y model llywodraeth leol, ond hefyd wedi'i deilwrio'n benodol ar gyfer y gwasanaeth Prawf. Byddai'n seiliedig ar bum peth (pump C yn Saesneg) – ymgynghori, cymharu, herio, cydweithio a, lle bo hynny'n briodol, cystadlu.

Byddai'r broses yn gweithio fel a ganlyn:

i. Yn gyntaf, byddai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ganolog, yn pennu rhaglen adolygu tair blynedd. Ar gyfer pob un o'r tair blynedd, byddai NOMS yn dewis gwasanaethau y byddai'n rhaid i ymddiriedolaethau a byrddau prawf eu hadolygu. Byddai gwasanaeth yn cael ei ddewis drwy ystyried ei bwysigrwydd strategol, ei botensial i fod yn effeithiol, ei botensial i fod yn fwy effeithlon, cymhwysedd ardaloedd prawf i'w adolygu, a'r costau a'r buddiannau tebygol a fyddai'n gysylltiedig â'i adolygu. Byddai NOMS, gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, hefyd yn cyhoeddi manylebau cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau a oedd i'w hadolygu, yn gyson â Chytundebau Lefel Gwasanaeth, contractau a safonau cenedlaethol. Maes o law, byddem yn disgwyl symud at system lle byddai rhanbarthau NOMS yn dewis pa wasanaethau i'w hadolygu, er y byddai'n rhaid iddynt ystyried canllawiau cenedlaethol wrth wneud hynny.

ii. Byddai rhanbarthau NOMS yn cyfarwyddo a chydlynu'r rhaglen adolygu ranbarthol. Lle bo angen, byddent hefyd yn negodi gyda'r ardaloedd prawf yr addasiadau rhanbarthol priodol i'r manylebau gwasanaeth cenedlaethol.

---

[22] *Ibid.*, t.5.

[23] *Ibid.*, t.6.

iii. Byddai ardaloedd prawf unigol yna'n cyflawni adolygiadau. Yn gyntaf, byddent yn casglu amrywiol ddata er mwyn gallu herio eu hunain ynghylch sut yr oeddent yn darparu'r gwasanaeth. Byddent yn rhoi'r data hyn i'r ganolfan NOMS (yn amodol ar ystyriaethau cyfrinachedd masnachol) er mwyn creu cronfa ddata genedlaethol, a byddai NOMS yna'n ei rhoi i'r holl ardaloedd prawf eraill, fel y gallent wedyn feincnodi eu perfformiad yn erbyn perfformiad eu cyd-ardaloedd. Byddai'r ardaloedd prawf yna'n herio ymhellach eu darpariaeth o wasanaethau ac, ar sail hyn, yn ysgrifennu cynllun gwella perfformiad yn disgrifio sut yr oeddent yn bwriadu gwella eu gwasanaethau yng ngoleuni'r adolygiadau. Byddai yna'n rhaid ystyried cystadlu'r gwasanaeth.

iv. Byddai rhanbarthau NOMS yn craffu ar y cynlluniau hyn, drwy ddefnyddio cyfres safonol o feini prawf gwerthuso, ac yn cytuno ar gynllun perfformiad terfynol â'r ardal brawf ar ôl i'r ddwy ochr gytuno ar ei gadernid. Pe bai anghytundeb yn ei gylch, byddai'r ganolfan yn hwyluso ffordd ymlaen. Byddai'r ardal brawf yna'n gweithredu'r cynllun gwella perfformiad, ac yn monitro'r gweithrediad hwnnw.

Mae manylion pellach ar gael yn y ddogfen ymgynghori yn gynharach yn y ddogfen gyffredinol hon.

Byddai'n cael ei weithredu mae'n debyg yn ystod Haf / Hydref 2008; bydd yr union ddyddiad yn dibynnu ar ganlyniad y broses ymgynghori.

Ymgynghori

Mae'r model arfaethedig hwn wedi bod yn destun ymgynghori anffurfiol helaeth, gyda darparwyr prawf, Undebau Llafur a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal ag o fewn llywodraeth. Byddwn yn awr hefyd yn ymgynghori â'r cyhoedd arno dros gyfnod o ddeuddeg wythnos, ac yn hysbysu rhanddeiliaid sydd â diddordeb, yn cyhoeddi yn y wasg a'i roi ar ein gwefan gyhoeddus.

Costau a Buddiannau

Mae prif **gostau'r** broses Gwerth Gorau arfaethedig yn y Gwasanaeth Prawf wedi eu gosod isod.

Lleol

1. Amser staff yr aelodau hynny o'r ardaloedd prawf sydd yn ymwneud â'r broses adolygu. Gall y gost hon gael ei chymryd oddi mewn i'r adnoddau sydd eisoes yn bodoli, er y byddai hyn yn dibynnu ar gymhwysedd. Mae yna gost ymhlyg yn rhyddhau staff gweithredol i wneud y gwaith ac, os yn briodol, ôl-lenwi'r costau staff hynny. Efallai y byddai 3B meysydd prawf yn dewis cyflogi staff newydd i wneud yr adolygiadau, ond bwriad y polisi yw y dylai'r gwaith adolygu gael ei gynnwys yn y prosesau rheoli presennol. Byddai ganddyn nhw hawl sylweddol i ddewis sut maen nhw'n cynnal yr adolygiadau.

2. Costau uniongyrchol, sydd ddim yn ymwneud â staff ar gyfer yr ardaloedd prawf sy'n cynnal yr adolygiadau. Mae'r gost uniongyrchol yn fwyaf tebygol o godi mewn ymgynghoriad - er enghraifft, gallai ardaloedd prawf ddewis cynnal arolygon, a allai olygu gwariant uniongyrchol. Gallai bod yna gostau hysbysu'n gysylltiedig â hyn.

Gellir gwneud amcangyfrif cychwynnol o'r costau sy'n gysylltiedig ag 1 a 2. Ar y 30 Mehefin 2007, roedd gan bedwar o'r 42 ardal prawf (Manceinion Fwyaf, Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gorllewin Sir Efrog) fwy na 1000 o staff. Mae'r ffigurau hyn eto i'w cyhoeddi ac efallai y cân nhw'u diwygio ychydig wrth gael eu cyhoeddi. Mae'n debygol y byddai adolygiadau Gwerth Gorau mewn ardaloedd â llai na 1000 o staff yn cymryd chwarter yr amser (er o bosibl y caent eu crynhoi fel yr amser i gyd mewn chwarter blwyddyn) ar gyfer dau aelod o staff. Fe fydden nhw'n debygol o fod yn Band 5 (rheolwr canol) a Band 3 (cefnogaeth weinyddol). Mae rhai yn Band 5 yn cael eu talu tua £35,000, a Band 3 tua £25,000 y flwyddyn, felly'r costau perthnasol am chwarter eu hamser fyddai £15,000. Gyda £15,000 o dreuliau i gynnal proses adolygu, a, gan gyfrif am 30% o godiad mewn costau staff i gyfrif am bensiynau a chyfraniad yswiriant cenedlaethol cyflogwyr, byddai'r broses adolygu'n costio £34,500 ar gyfer y fath ardal prawf. Byddai ardaloedd prawf â mwy na 1000 o staff yn debygol o fod ag angen tri o bobl i gynnal adolygiadau, gan y byddai niferoedd uwch o staff yn cyfateb i lwyth gwaith mwy y byddai angen ei adolygu. Byddai hyn yn debygol o fod yn Band 5 a dau Band 3, eto i gyd yn gweithio am chwarter o'u hamser ar Gwerth Gorau. Gydag £20,000 o dreuliau a'r un 30% o godiad, byddai'r adolygiadau'n costio £47,625 iddyn nhw. Byddai cost uniongyrchol gyffredinol y broses i'r ardaloedd prawf felly'n cael ei hamcangyfrif i fod yn £1.5015 miliwn. Mae'r holl ffigurau cymhwysedd staff gaiff eu defnyddio'n amcangyfrifon ac fe fydden nhw'n debygol o amrywio rhwng ardaloedd prawf.

Mae'r adolygiadau'n debygol o alw ar amser aelodau eraill o staff a allai gyfrannu at y broses adolygu mewn ffyrdd amrywiol. Byddai hyn yn anodd ei fesur.

3. Amser staff yr aelodau hynny o'r ardaloedd prawf sy'n ymwneud â gweithredu'r cynlluniau gwella perfformiad. Mae'r gweithrediadau yn dibynnu ar gynnwys y cynllun ac ar amgylchiadau unigryw'r ardal profiannaeth, felly mae'n anodd bod yn fwy manwl. Ond er hynny, dylai hyn fod yn rhan o unrhyw weithgaredd rheolaeth neu ddarpariaeth.

4. Costau uniongyrchol, sydd ddim yn ymwneud â staff ar gyfer 10B yr ardal prawf o weithredu'r cynlluniau gwella perfformiad.

Gan y byddai natur y gwelliannau'n wahanol ym mhob achos, byddai'n anodd iawn ceisio rhoi gwerth ar 3 a 4.

5. Os a phan fo cynlluniau gwella cytunedig yn arwain at gystadleuaeth rhwng y gwasanaethau, byddai costau'n ymwneud â rhedeg y cystadlaethau a'r newidiadau trefniadaethol fyddai'n gysylltiedig â newid

darparwyr gwasanaeth. Byddai'n anodd mesur hyn - bydd yn dibynnu ar y nifer o gystadlaethau, fydd yn ddibynnol ar ddeilliannau'r adolygiadau Gwerth Gorau. Mae'n debyg y byddai prosesau a chost y cystadlaethau yn gwahaniaethu ar draws y wlad.

Rhanbarthol

6. Byddai'n rhaid i swyddfeydd rhanbarthol NOMS (wedi eu diffinio er mwyn cynnwys y swyddfeydd cyfatebol yng Nghymru) fuddsoddi adnoddau mewn cydlynu'r rhaglen waith genedlaethol o adolygiadau, trafod newidiadau rhanbarthol i'r manylebau cenedlaethol ac archwilio'n fanwl y cynlluniau gwella perfformiad. Ond, gan fod y swyddfeydd yma ar hyn o bryd yn cael eu had-drefnu byddai'n anodd amcangyfrif y costau ar y funud.

Cenedlaethol

7. Byddai gan y ganolfan nifer o rolau yn ystod y broses: gosod y rhaglen(ni) gwaith cenedlaethol, cyflwyno manylebau cenedlaethol, cynhyrchu a chylchlythyru canllawiau, dadansoddi a chyflwyno data meincnodi, a datrys unrhyw anghytundebau rhwng cyfarwyddwyr rhanbarthol ac ardaloedd prawf ynglŷn â chynlluniau gwella perfformiad. Byddai'r rôl yn fwy beichus nag un y cyfarwyddwyr rhanbarthol. Ni fyddai llawer o'r tasgau yma yn hawdd, ond fe fyddai angen dadansoddiad ac/neu ymchwil arnyn nhw, yn arbennig dethol y gwasanaethau i'w hadolygu, dadansoddi data meincnodi a chyhoeddi manylebau cenedlaethol.

   Ond yn wahanol i'r lefelau lleol a rhanbarthol, mae'n debyg y byddai tîm canolog wedi ei neilltuo'n cael ei sefydlu oddi mewn i'r NOMS (wedi ei ailstrwythuro), i gymryd at yr holl swyddogaethau hyn. Mae'n bosib y byddai hyn yn cynnwys Gradd 7, dau Swyddog Gweithredol Hŷn ac un Swyddog Gweithredol (i gyd yn amser llawn) a thrydedd ran o amser Gradd 6 amser llawn. Yn cyfrif am godiad o 30% mewn costau staff i gyfrif am bensiynau a chyfraniadau yswiriant cenedlaethol cyflogwyr, ac yn cynnwys treuliau am eu gwaith, cost debygol y tîm hwn fyddai tua £200,000 *y flwyddyn,* wedi ei seilio ar rychwant cyflogau cyffredinol staff y graddau hynny. Byddai costau eu gwaith (fel yr adlewyrchir yn y nifer o staff fyddai eu hangen a chostau cysylltiol) yn debygol o amrywio dros amser. Byddai angen llawer mwy o adnoddau ar y dechrau, pan fyddai'r prosesau cychwynnol, canllawiau a data'n cael eu casglu a phan fyddai ar ardaloedd prawf angen mwy o ganllawiau ar y broses. Petai yna ddilyniant o raglenni gwaith cenedlaethol tair blynedd o hyd, byddai yna gynnydd yn y costau bob tair blynedd.

8. Mae'n debygol y byddai yna hefyd gostau cenedlaethol nad oedd yn gostau staff yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r gyfundrefn. Rydyn ni wedi amcangyfrif y byddai hyfforddi a gweithdai'n costio £100,000, cynhyrchu a dosbarthu llawlyfr canllawiau ar gyfer ardaloedd prawf,

£25,000, cynhyrchu dogfennaeth wedi ei safoni i helpu ardaloedd prawf, £20,000, a chostau amrywiol eraill, £50,000; mae hyn yn creu cyfanswm o £195,000.

Mae'r costau blynyddol mesuradwy felly'n cael eu hamcangyfrif i fod yn £1.7015 miliwn. I osgoi gradd 2 uwch o fanwl gywirdeb nag mae'r data'n ei gynnal, £1.7 miliwn yw'r amcangyfrif. Y costau sefydlu penodol fyddai £195,000 - ac eto i osgoi manwl gywirdeb amhriodol, byddai £200,000 yn ffigwr mwy priodol. Ond nid yw'r rhain yn cynnwys y costau na ellir eu mesur sy'n gysylltiedig â gweithredu'r adolygiadau. O ystyried y data mesuradwy cyfyngedig ar hyn o bryd, byddai'n fwy addas amcangyfrif ffigwr Gwerth Net Presennol pan geir yr Asesiad o Effaith terfynol.

Mae prif **fuddiannau'r** broses Gwerth Gorau'n fwy anodd eu nodi, i raddau oherwydd bod y farchnad ar gyfer gwasanaethau prawf yn dal yn newydd. Yn gyffredinol mae adolygiadau Gwerth Gorau wedi eu bwriadu i arwain at gyflenwi mwy effeithlon ac arbedion costau. Gall gwasanaethau sy'n cystadlu arwain at effeithlonrwydd. Ac mae darpariaeth gydweithredol - darparu gwasanaethau ar draws ffiniau sefydliadol - yn debygol o arwain at ddarbodion maint.

Dylai fframwaith a phroses Gwerth Gorau manwl hefyd gymell darparwyr (cyhoeddus, preifat neu wirfoddol) i ganolbwyntio ar gyflawni mwy o welliant yn eu perfformiad a sicrhau deilliannau gwell ar gyfer troseddwyr.

Gellir gwneud amcangyfrif meintiol cychwynnol. Mae cyllideb flynyddol y gwasanaeth prawf wedi bod tua £860 miliwn, ac o'r arian hwn mae ymyriadau'n cynrychioli tua thraean (tua £287 miliwn). Petai bob ymyriad yn destun adolygiad Gwerth Gorau dros gyfnod o dair blynedd, byddai £95 miliwn (traean o £287 miliwn) yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Petai arbedion effeithlonrwydd o, er enghraifft, 3% (ffigwr y gyfundrefn gwerth am arian flaenorol) yn cael eu cyflawni gan adolygiadau Gwerth Gorau bob blwyddyn, fe fyddem yn gallu rhagweld arbedion o tua £2.85 miliwn yn genedlaethol (3% o £95 miliwn) Byddai'r arbedion hyn sy'n berthnasol i bob adolygiad Gwerth Gorau yn cael eu sicrhau'n flynyddol. Mae hyn yn golygu, yn erbyn gwaelodlin gychwynnol a osodwyd ar ddechrau'r rhaglen waith, y byddai'r arbedion canlynol yn cael eu gwireddu:

- Ym mlwyddyn 1, byddai tua £2.85 miliwn o arbedion yn cael eu gwneud, yn gysylltiedig â gwasanaethau a adolygwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen waith Gwerth Gorau.

- Ym mlwyddyn 2, byddai arbedion o tua £5.7 miliwn yn cael eu gwneud, ac o'r rhain:

- Byddai £2.85 miliwn yn ymwneud â'r gwasanaethau a adolygwyd yn yr ail flwyddyn.

- Byddai £2.85 miliwn ychwanegol yn ymwneud â'r gwasanaethau a adolygwyd yn y flwyddyn gyntaf - gan y byddai'r gwelliannau effeithlonrwydd a wnaed o ganlyniad i'r adolygiadau hynny'n parhau yn eu lle.

- Ym mlwyddyn 3, byddai tua £8.55 miliwn o arbedion yn cael eu gwneud, ac o'r rhain:

- Byddai £2.85 miliwn yn ymwneud â'r gwasanaethau a adolygwyd yn y drydedd flwyddyn.

- Byddai £5.7 miliwn ychwanegol yn ymwneud â'r gwasanaethau a adolygwyd yn y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn - gan y byddai'r gwelliannau effeithlonrwydd a wnaed o ganlyniad i'r adolygiadau hynny'n parhau yn eu lle.

Felly dros gyfnod o dair blynedd fe fyddem yn rhagweld cyfanswm arbedion cenedlaethol o £17.1 miliwn (cyfanswm £2.85m, £5.7m ac £8.55m) yn erbyn y waelodlin wreiddiol. Ond dim ond amcangyfrifon yw'r rhain ar hyn o bryd.

Hefyd mae'n debygol y bydd yna fuddiannau na ellir eu mesur - er enghraifft, gwell cyflenwi gwasanaeth a llai o aildroseddu.

Oherwydd natur y broses Gwerth Gorau mae costau yn debygol o godi yn y cyfnodau cynnar, ond bydd buddiannau'n cael eu gwireddu dros amser. Fel gyda'r rhan fwyaf o systemau newydd o'r math yma, rydyn ni'n disgwyl, dros amser, y bydd costau'n gostwng wrth i ardaloedd prawf a NOMS ei hun ddatblygu gweithrediad mwy effeithiol.

Opsiynau eraill

1. Gwneud dim

Byddai hyn yn golygu peidio â chael cyfundrefn effeithlonrwydd ffurfiol, genedlaethol oddi mewn i'r gwasanaeth prawf. Heb gyfundrefn effeithlonrwydd does gan ardaloedd prawf ddim o'r cymhellion arfaethedig i arloesi, lleihau costau neu wella safon y darparu gwasanaeth. Mae ardaloedd prawf yn awr â rhyddid i weithredu mesurau effeithlonrwydd o'u dewis eu hunain. Mewn rhai achosion, mae ardaloedd prawf yn ddiweddar wedi cynnal eu hadolygiadau gwerth gorau eu hunain; ond hyd yma, does yna ddim dadansoddiad cost a budd o'r rhain.

2. Gwerth Gorau - rôl ranbarthol ehangach

Byddai amrywiad ar y prif gynnig yn golygu mwy o gyfranogiad ar y lefel rhanbarthol. Ein prif gynnig, fel sydd eisoes wedi ei asesu ar gyfer NOMS yw gosod rhaglen waith tair blynedd i ddechrau, ond, dros amser, i ddatganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau. Yn yr opsiwn hwn, byddai'r rhanbarthau, o'r

cychwyn, yn dewis y gwasanaethau y byddai eu hardaloedd prawf yn eu hadolygu, yn dilyn y canllawiau a osodir gan ganolfan NOMS.

Petai'r cyfrifoldeb am ddewis y gwasanaethau i'w hadolygu yn cael ei ddatganoli i'r rhanbarthau, byddai lleihad sylweddol yn y costau canolog. Ni fyddai NOMS bellach yn gorfod gosod y rhaglen waith na dadansoddi a chyhoeddi data meincnodi. Gan mai'r rheiny yw'r tasgau canolog mwyaf trwm eu defnydd o adnoddau, byddai cryn ostyngiad yn y gwaith a chostau canolog. Byddai NOMS yn dal i gyhoeddi canllawiau ar sut i ddewis gwasanaethau i gael eu hadolygu, cyhoeddi canllawiau mwy cyffredinol a chadw rôl lywodraethol/ arolygol gyffredinol, ond byddai hyn yn cynrychioli cyfran lawer llai o waith (ac arian) nag yn y model blaenorol.

Byddai peth o'r costau cysylltiedig yn cael ei drosglwyddo i'r rhanbarthau. Yn ei dro, mae hyn yn debygol o gael ei basio ymlaen yn nhermau prisiau uwch i NOMS os yw'r gwasanaeth sy'n cael ei adolygu yn cael ei redeg gan y sector preifat neu'r trydydd sector. Byddai angen i ranbarthau nawr ddewis y gwasanaethau i gael eu hadolygu, ond, gan y gallen nhw alw ar y canllaw cenedlaethol ac ar eu gwybodaeth fanwl eu hunain o amgylchiadau lleol, byddai hon yn broses llawer llai beichus a chostus nag a fyddai i'r canol. Cost fwy sylweddol i'r ardaloedd/rhanbarthau prawf fyddai dod o hyd i'r data y dylen nhw gymharu eu hunain yn eu herbyn. Fel y disgrifir ar gyfer y gyfundrefn awdurdod lleol, gall hyn fod yn draul sylweddol. Er hynny, mae'n debygol y byddai arbedion costau cyffredinol yn dal i gael eu gwneud.

Ond, mae'n debygol y byddai'r buddiannau a wireddir gryn dipyn yn is. Byddai'r broblem a wynebir wrth addasu i system berfformiad newydd, heb ganllawiau cenedlaethol yn y blynyddoedd cynnar ar sut mae ei wireddu, a gyda system orfodi llai effeithiol, yn golygu y byddai'r adolygiadau'n llai tebygol o gynhyrchu gwelliannau. Gallai gwasanaethau ymylol yn hytrach na rhai craidd gael eu hadolygu a byddai meincnodi'n fwy anodd. Fel bob amser, byddai'n anodd bod yn fanwl gywir am y buddiannau, ond byddai'r lleihad potensial mewn buddiannau'n debygol o orbwyso yr arbedion costau.

3. Gwerth Gorau - rôl ganolog ehangach

Unwaith eto, mae hyn yn amrywiad bychan ar y prif gynnig. Byddai'n golygu bod y ganolfan NOMS yn cadw'i holl rolau'n amhenodol. Byddai'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r rôl ganolog yn cael eu cynnal. Mae'n debyg hefyd y byddai yna leihad mewn buddiannau. Er bod angen rhywfaint o gyfeirio canolog ar y dechrau tra bod y diwylliant yn ymsefydlu, byddai ei barhad yn debygol o fod yn wrthgynhyrchiol. Mae'n debygol y byddai Gwerth Gorau'n datblygu'n broses a arweinir gan brosesau a chydymffurfiad, a byddai llai o arloesedd lleol. Byddai staff â llai o symbyliad ac fe fydden nhw'n cynhyrchu adolygiadau o safon is a fyddai wedyn yn llai tebygol o wireddu buddiannau.

Dadansoddiad cyffredinol

O astudio model y llywodraeth leol, a'r fframwaith Gwerth Gorau arfaethedig, mae'n amlwg bod Gwerth Gorau'n broses a *all* wireddu buddiannau net

sylweddol, ond dim ond os yw wedi ei strwythuro'n gywir. Fel arall, gallai'r llwyth cynyddol a roddir ar yr ardaloedd prawf a NOMS greu costau gor-uchel fyddai'n gorbwyso'r buddiannau.

Mae barnu'r union gostau a buddiannau'n anodd iawn, gan nad yw'r farchnad ar gyfer gwasanaethau prawf wedi ei datblygu'n llawn a bydd yn destun amrywiaeth rhanbarthol sylweddol. Yn absenoldeb model meintiol gwell, y ffordd i sicrhau bod Gwerth Gorau'n arwain at fuddiannau net yw strwythuro'r model fel mai dyna'r canlyniad mwyaf tebygol. Rydyn ni felly wedi cyflwyno nifer o ddulliau i warchod rhag model sydd â chostau uchel.

i. Ffactor allweddol wrth benderfynu pa wasanaethau i'w dewis ar gyfer y rhaglen waith yw a fyddai'r buddiannau'n debygol o orbwyso'r costau.

ii. Yn y cynlluniau gwella perfformiad, byddai angen i ardaloedd prawf egluro'r costau a buddiannau disgwyliedig o weithredu'r cynllun. Byddai hyn yn osgoi gweithredu cynlluniau na fyddai'n rhoi buddiannau net o gwbwl. Byddai archwilio'r cynllun gan gyfarwyddwyr rhanbarthol yn cynnig haen o sicrwydd. Byddai'r dyfarniad hwn yn cwmpasu dim ond y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynlluniau, nid y rhai sy'n gysylltiedig â'r broses adolygu.

iii. Wrth fonitro gweithredu'r cynllun gwella perfformiad, byddai gofyn i ardaloedd prawf ystyried nid yn unig a yw perfformiad wedi gwella, ond a yw buddiannau Gwerth Gorau wedi gorbwyso'r costau. Byddai hyn yn cyfrif am gostau trwy gydol y broses Felly dylai ddylanwadu ar y ffordd mae Gwerth Gorau'n gweithredu yn y dyfodol.

Yn ychwanegol at hyn, mae'n model yn osgoi rhai o'r problemau a arweiniodd ar gostau uchel ar gyfer awdurdodau lleol:

i. Ni fyddai'n rhaid i ardaloedd prawf wario llawer o arian yn dod o hyd i ddata perthnasol - byddai'n cael ei ddarparu ar eu cyfer. Erbyn y byddai mwy o gyfrifoldeb yn cael ei ddatganoli o'r canol, fe fyddai ganddyn nhw well syniad ble i edrych.

ii. Ni fyddai'r broses archwilio yn feichus.

iii. Ni fyddai ardaloedd prawf mewn sefyllfa lle byddai'n rhaid iddyn nhw archwilio gormod o wasanaethau.

Dylai hyn i gyd helpu i sicrhau bod buddiannau Gwerth Gorau yn gorbwyso'r costau, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb.

Ein opsiwn dewisol ni yw'r un gaiff ei egluro dan yr adran Cynnig - cyfeiriad canolog i ddechrau, yn arwain ar fwy o ddatganoli. Er hynny, rydyn ni'n hollol agored i'r ddau amrywiad ar hyn.

Asesu'r Gystadleuaeth

Mae cyflwyniad Gwerth Gorau'n cymryd lle'r dangosydd perfformiad blaenorol oedd yn gofyn i fyrddau prawf isgontractio canran y cytunwyd arno (10% yn 2007/08) o'u busnes. Felly roedd yna ddisgwyl bod rhywfaint o'r busnes yn cael ei isgontractio er bod yna ddiffyg eglurder a chysondeb ynglŷn â'r hyn gâi ei isgontractio.

Mae Gwerth Gorau yn 'ddiduedd ei ddeilliannau'. Mae'n fwy na mecanwaith gwneud neu brynu ac fe'i bwriedir i wella'u heconomi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, yn annibynnol o'r ffaith a yw gwasanaethau'n cael eu cyflwyno gan y sector cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector. Nid yw Gwerth Gorau wedi ei fwriadu i fod yn weithdrefn sy'n cydymffurfio â'r broses. Ond gall cyfundrefn Gwerth Gorau greu gwelliannau sylweddol mewn gwasanaethau prawf heb angen am gystadleuaeth.

Byddai Gwerth Gorau i ddechrau'n cael ei seilio ar raglen tair blynedd o adolygiadau, y cytunwyd arni'n genedlaethol, sy'n golygu y bydd yr un gwasanaethau yn cael eu hadolygu yn ystod y cyfnod o dair blynedd. Bydd angen i fyrddau ac ymddiriedolaethau prawf herio a chymharu - ymhlith pethau eraill - sut mae'r gwasanaethau'n cael eu cyflawni. Bydd y broses herio a chymharu'n arwain at ystyriaeth ddwys ynglŷn â'r defnydd o gystadleuaeth i gyflenwi'r gwelliannau gwasanaeth angenrheidiol. Dylai hyn, yn ei dro, arwain at nifer o gystadlaethau - rhai'n cynnwys cynigion gan dimau mewnol - am y gwasanaethau gaiff eu hadolygu.

Hefyd, bydd disgwyl i fyrddau ac ymddiriedolaethau prawf a nodwyd trwy adolygiadau Gwerth Gorau fel rhai sy'n arddangos perfformiad gwael - o dan drothwy'r farchnad - gael eu rhoi mewn cystadleuaeth.

Nid yw'r gyfundrefn Gwerth Gorau wedi ei bwriadu i gyfyngu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ar y 3 nifer na'r amrywiaeth o gyflenwyr. Byddwn yn cyflwyno manylebau cenedlaethol ar gyfer pob gwasanaeth y bydd disgwyl i bob bwrdd ac ymddiriedolaeth prawf eu cwrdd, p'un ai eu bod yn dewis contractio'r gwasanaeth allan ai peidio. Dylai'r holl gyflenwyr allu cystadlu'n frwd am yr holl wasanaethau sy'n cael eu rhoi mewn cystadleuaeth.

Yn y blynyddoedd cyntaf gall fod yna nifer o ffactorau sy'n cyfyngu ar y nifer o wasanaethau sy'n cael eu contractio'n allanol. Ond, y rhain yw cymhwysedd ac awydd y cyflenwyr newydd potensial, nad ydynt yn benodol i Gwerth Gorau. Y cynhwysedd yw a oes yna farchnad eisoes yn bodoli a gallu'r farchnad honno i gwrdd â gofynion y ddarpariaeth gwasanaethau. Yr awydd yw diddordeb y farchnad mewn cystadlu ar gyfer y gwasanaethau newydd hyn.

Byddai pob cystadleuaeth ar gyfer gwasanaethau'n cael eu rheoli yn ôl gofynion Fframwaith Gweithredu Masnachol NOMS ac Egwyddorion Niwtraliaeth Cystadleuol NOMS.

Effaith ar Sectorau Penodol

Bydd effaith uniongyrchol y cynigion hyn yn syrthio ar y sector cyhoeddus yn unig. Mae hyn yn cynnwys rôl yr ardaloedd prawf wrth gyflawni a gweithredu'r adolygiadau, ond hefyd rolau canol ac ardaloedd NOMS. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau prawf yn cael eu darparu gan y sector cyhoeddus - byrddau ac ymddiriedolaethau prawf - a, lle maen nhw'n cael eu contractio'n allanol, y bwrdd neu ymddiriedolaeth prawf yn yr ardal fyddai'n cynnal yr adolygiad Gwerth Gorau.

Gall fod yna effaith anuniongyrchol ar y sector annibynnol - y trydydd sector yn bennaf, sy'n dueddol o dderbyn contractau gwasanaeth prawf a gaiff eu cyflwyno'n allanol. Byddai ardaloedd prawf yn disgwyl i unrhyw isgontractwr gymryd 10 rhan yn, a chyfrannu at yr adolygiadau. Fe allen nhw wneud hynny, er enghraifft, trwy ofyniad 10A mewn contractau newydd a Chytundebau Lefel Gwasanaeth (SLA). Lle mae yna gontractau ac SLA eisoes yn bodoli, byddai darparwyr yn cael eu hannog i ddilyn y fframwaith er mwyn dangos yn dryloyw eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd mewn perthynas â darparwyr eraill ac â'r farchnad ehangach. Ond nid yw hyn yn debygol o fod yn faich llethol ac ni fyddai'n sylweddol wahanol i'r oblygiadau sydd gan isgontractwyr ar hyn o bryd - er enghraifft, wrth ddarparu gwybodaeth.

Gall Gwerth Gorau arwain at gystadleuaeth i'r gwasanaethau prawf. Gallai hyn gynnig manteision i ddarparwyr sector annibynnol, a allai gael cyfleoedd newydd i gystadlu am wasanaethau, ond anfanteision hefyd, gan y gallai fod yna gystadleuaeth ar gyfer gwasanaethau maen nhw'n eu darparu ar hyn o bryd. Os yw gwasanaeth yn cael ei gystadlu fel mae'n bodoli ar y funud, byddai gwerth, maint a chymhlethdod y gwasanaeth yn golygu y byddai'n anodd i sefydliadau bychain gystadlu a chynnig y gwasanaethau hyn fel cynigydd unigol.

Yn ystod arolwg Gwerth Gorau dylai bwrdd neu ymddiriedolaeth Gwerth Gorau herio a chymharu sut y gallai gwasanaethu gael eu cyflwyno'n fwy effeithiol. Er mwyn cyflwyno gwasanaeth mwy effeithiol, efallai y byddai'n fwy addas i gynnwys nifer o ddarparwyr gwasanaeth arbenigol mewn partneriaeth yn hytrach na defnyddio cyflenwr unigol ar gyfer y gwasanaeth cyflawn. Gallai hyn gynnig cyfleoedd i sefydliadau bychain i gystadlu am y gwasanaethau arbenigol hyn.

Rydyn ni wedi cydweithio'n aml â sefydliadau'r trydydd sector cyn ymgynghoriadau cyhoeddus, ac rydyn ni'n ymgynghori â nhw fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Profion Effaith Penodol: Rhestr Wirio

Defnyddiwch y tabl isod i ddangos i ba raddau rydych wedi ystyried effeithiau potensial eich opsiynau polisi.

Sicrhewch fod canlyniadau unrhyw brofion sy'n effeithio ar y dadansoddiad cost a budd yn cael eu cynnwys yn y brif dystiolaeth; gall canlyniadau eraill gael eu hatodi.

Math o brofi a wnaed	Canlyniadau yn y Gronfa Dystiolaeth?	Canlyniadau wedi eu hatodi?
Asesiad o'r Gystadleuaeth	Ydyn	Nac ydyn
Prawf Effaith ar Gwmnïau Bychain	Ydyn	Nac ydyn
Cymorth Cyfreithiol	Nac ydyn	Nac ydyn
Datblygiad Cynaliadwy	Nac ydyn	Nac ydyn
Asesiad Carbon	Nac ydyn	Nac ydyn
Amgylchedd Arall	Nac ydyn	Nac ydyn
Asesiad Effaith ar Iechyd	Nac ydyn	Nac ydyn
Cydraddoldeb Hiliol	Ydyn	Ydyn
Cydraddoldeb ar sail Anabledd	Ydyn	Ydyn
Cydraddoldeb ar sail Rhyw	Ydyn	Ydyn
Hawliau Dynol	Nac ydyn	Nac ydyn
Profi Gwledig	Nac ydyn	Nac ydyn

Atodiadau

Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
National Offender Management Service

GWERTH GORAU YN Y GWASANAETH PRAWF – ASESIAD O EFFAITH CYDRADDOLDEB

Rhan 1 – ASESIAD CYCHWYNNOL

1. Swyddog(ion) a'r Uned sy'n gyfrifol am gwblhau'r asesiad:

Andrew Lewis, yn gweithio i'r Rhaglen Pensaernïaeth System oddi mewn i'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)

2. Enw'r polisi, strategaeth, swyddogaeth neu brosiect:

Polisi: Gwerth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf

3. Beth yw prif bwrpas neu amcanion y polisi, strategaeth, swyddogaeth neu brosiect?

Sicrhau bod gwasanaethau prawf yn cael eu cyflawni gyda gwerth am arian i economi arbedion, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gorau posibl. Yr effeithiau a fwriedir yw: - Gwell gwerth am arian i'r trethdalwr wrth gyflwyno gwasanaethau prawf. - Effeithlonrwydd gwell a chostau is. - Cyflwyniad gwasanaethau gwell. - Deilliannau mwy effeithiol ac effeithlon i droseddwyr. - O ganlyniad, llai o aildroseddu ac, o'r herwydd, diogelu'r cyhoedd.

4. Pwy gaiff y budd o'r prosiect polisi/strategaeth/swyddogaeth?

Y cyhoedd – fe fyddan nhw'n derbyn gwell gwerth am arian yn y ddarpariaeth o wasanaethau prawf. Troseddwyr – fe allen nhw dderbyn gwasanaethau o ansawdd uwch.

5. A yw'r polisi/strategaeth/swyddogaeth neu'r prosiect 5 wedi eu hegluro i'r rhai a allai gael eu heffeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?

Mae cyfarfodydd eisoes wedi cael eu cynnal gyda nifer o randdeiliaid yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, yn ogystal ag oddi fewn i'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol ac mewn rhannau eraill o'r llywodraeth. Hefyd fe fydd yna broses ymgynghori cyhoeddus (gweler cwestiwn 6 isod), yn cynnwys cyfarfodydd rhanddeiliaid.

6. Ydych chi wedi ymgynghori ar y polisi/strategaeth/swyddogaeth/prosiect hwn?

Eisoes cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol (gweler uchod) ac fe fydd yna ymgynghoriad ffurfiol, cyhoeddus, deuddeg wythnos o hyd. Bydd hyn yn cyrraedd rhanddeiliaid penodol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'n anochel ei bod yn anoddach cyrraedd troseddwyr eu hunain, ond bydd yr ymgynghoriad yn cael ei anfon i'r sefydliadau hynny oddi mewn a'r tu allan i'r llywodraeth sydd yn ymwneud â'u buddiannau.

7. Cwblhewch y tabl canlynol a rhowch resymau/sylwadau am ble:

(a) Gallai'r polisi/strategaeth/swyddogaeth/prosiect hwn gael effaith cadarnhaol ar unrhyw un o'r grwpiau amrywiol neu fod wedi cyfrannu at hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a gwella perthynas rhwng grwpiau.

(b) Gallai'r polisi/strategaeth/swyddogaeth/prosiect 1 hwn gael effaith negyddol ar grŵp amrywiol, h.y. eu gosod o dan anfantais mewn unrhyw ffordd.

Grŵp Amrywiol	E.e. o effaith gadarnhaol	E.e. o effaith negyddol	Rheswm/ sylwadau
Dynion	Gwelliant posibl wrth ddarparu gwasanaeth	Amherthnasol	Gweler yr adran testun rhydd ar y diwedd
Menywod	Menywod	Menywod	Menywod

Pobl Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig	Pobl Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig	Pobl Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig	Pobl Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig
Pobl Dduon neu Dduon Prydeinig	Pobl Dduon neu Dduon Prydeinig	Pobl Dduon neu Dduon Prydeinig	Pobl Dduon neu Dduon Prydeinig
3 Pobl Wynion (yn cynnwys pobl o'r Iwerddon)	3 Pobl Wynion (yn cynnwys pobl o'r Iwerddon)	3 Pobl Wynion (yn cynnwys pobl o'r Iwerddon)	3 Pobl Wynion (yn cynnwys pobl o'r Iwerddon)
Pobl Tsieineaidd	Pobl Tsieineaidd	Pobl Tsieineaidd	Pobl Tsieineaidd
Unrhyw grŵp hiliol / ethnig arall (nodwch)	Unrhyw grŵp hiliol / ethnig arall (nodwch)	Unrhyw grŵp hiliol / ethnig arall (nodwch)	Unrhyw grŵp hiliol / ethnig arall (nodwch)
Pobl o Hil Gymysg	Pobl o Hil Gymysg	Pobl o Hil Gymysg	Pobl o Hil Gymysg
Pobl Anabl (rhowch fanylion am ba grŵp)	Pobl Anabl (rhowch fanylion am ba grŵp)	Pobl Anabl (rhowch fanylion am ba grŵp)	Pobl Anabl (rhowch fanylion am ba grŵp)
Pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol	Pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol	Pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol	Pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol
Pobl drawsrywiol	Pobl drawsrywiol	Pobl drawsrywiol	Pobl drawsrywiol
Pobl hŷn (50+)	Pobl hŷn (50+)	Pobl hŷn (50+)	Pobl hŷn (50+)
Pobl iau (17 – 25)	Pobl iau (17 – 25)	Pobl iau (17 – 25)	Pobl iau (17 – 25)
Grwpiau Ffydd (nodwch)	Grwpiau Ffydd (nodwch)	Grwpiau Ffydd (nodwch)	Grwpiau Ffydd (nodwch)

8. Rhowch ddisgrifiad byr o sut y bydd y prosiect polisi/strategaeth/swyddogaeth o fudd i'r grwpiau amrywiol yn y tabl uchod e.e. hyrwyddo cydraddoldeb.

Dylai'r adolygiadau Gwerth Gorau ystyried, ymhlith pethau eraill, yr agweddau o gydraddoldeb ac amrywiaeth o ddarpariaeth prawf. Fe ddylen nhw gynnwys ymgynghoriadau penodol gyda grwpiau lleiafrifol ac eraill er mwyn sicrhau bod y wybodaeth orau posibl am y pwnc yma'n cael ei chasglu. O ganlyniad i adolygiadau, gall darparwyr wneud newidiadau i'w gwasanaeth er mwyn cywiro unrhyw faterion ddaw i'r golwg, a all gynnwys rhai sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd Gwerth Gorau'n cynnal arolygon trylwyr o wasanaethau ac felly fe fyddan nhw'n gweithredu fel mecanwaith i ddatgelu a chael gwared â, ymhlith pethau eraill, unrhyw faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, a sicrhau yr ymdrinnir â nhw. Os a phan fo Gwerth Gorau yn arwain at gontractio'n allanol, mae cynigwyr yn debygol o gael eu profi yn erbyn anghenion amrywiaeth. I'r graddau hynny, dylai'r polisi yma fod o fudd i'r grwpiau amrywiol yn y tabl, hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a gwella'r berthynas rhwng grwpiau amrywiol. Dyma'r hyn a olygir gan 'Welliant posibl wrth ddarparu gwasanaeth'. Am fwy o fanylion gweler yr adran y testun rhydd ar ddiwedd y ddogfen hon.

9. Os mai dim ond addasiad bychan sydd ei angen (gweler tudalen 6 o'r canllaw) i bolisi/strategaeth/swyddogaeth/prosiect er mwyn lleihau neu gael gwared ag unrhyw effeithiau negyddol/ gwrthwynebus disgrifiwch hwn yma ynghyd â graddfeydd amser.

Amherthnasol

10. Os nad oes yna unrhyw dystiolaeth bod y polisi/strategaeth/swyddogaeth/prosiect yn hyrwyddo cydraddoldeb cyfle neu'n gwella'r berthynas rhwng grwpiau amrywiol, a oes yna addasiad bychan y gellid ei gyflwyno er mwyn cyflawni hyn? Disgrifiwch hwn yma ynghyd â graddfeydd amser.

Amherthnasol

A oes angen Asesiad o Effaith Cydraddoldeb: **Oes** ☐

Nac oes ☐

NODER: Rhaid rhestru tystiolaeth yng nghwestiynau 5 – 10 i ddangos pam y gwnaed penderfyniad i beidio â gweithredu asesiad o effaith llawn

Adran testun rhydd

Mae'r asesiad o effaith llawn yn dibynnu i raddau ar ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, Felly bydd yn cael ei gynnwys yn y ddogfen a gyhoeddir sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw.

Mae Gwerth Gorau'n fecanwaith newydd oddi mewn i'r gwasanaeth prawf, felly nid oes llawer o ddefnydd a allai ddarparu gwybodaeth am yr effeithiau penodol mae'n debygol o'u cael ar y sector honno. Felly rydyn ni wedi gwneud gwaith ymchwil i'r gyfundrefn gwerth gorau mewn llywodraeth leol, a ysbrydolodd ac a helpodd i hysbysu'r polisi yma.

Felly ymgynghorwyd â nifer o ddogfennau'n ymwneud â chyfundrefn gwerth gorau llywodraeth leol. Roedd gan y canlynol ddefnyddiau sylweddol am gydraddoldeb ac amrywiaeth:

1. 'Improving Public Services: Evaluation of the Best Value Pilot Programme – Final report' – Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, Prifysgol Warwick – Ionawr 2001.

2. 'Use of Local Performance Indicators in the Best Value Regime – Final Report' – Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau – Rhagfyr 2001.

3. 'Best Value and the Two-Tier Workforce in Local Government' – Best Value Intelligence Unit, UNISON – Ionawr 2002.

4. 'Equality and Diversity' – Y Comisiwn Archwilio – Mai 2002.

5. 'Local authorities' experience of carrying out DTLR Best Value surveys – A report for the Office of the Deputy Prime Minister by Quantitative Methods Applied to Surveys at the Office for National Statistics' – gol. O. Rowlands, Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, Hydref 2002.

6. 'Guidance on Equalities, Best Value, Community Planning and Power of Well-Being' – Medi 2003 [canllaw ar gyfer awdurdodau lleol yr Alban ar gyfundrefn Gwerth Gorau llywodraeth yr Alban].

7. 'Local Government Act 1999: Part 1 - Best Value and Performance Improvement' – Cylchlythyr a ryddhawyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 03/2003 – Mawrth 2003 (a'r Adendwm i Atodiad 2 C – Rhagfyr 2003).

8. Canllaw'n ymwneud â Gwerth Gorau 3 ar wefan IdEA.
9. 'The Equality Standard for Local Government – Frequently Asked Questions: Fact Sheet' – dogfen grynodeb ar gyfer awdurdodau lleol gydag adrannau i'w llenwi gan bob un ohonyn nhw.

Ychwanegwyd at yr ymchwil ddogfennol yma mewn ymgynghoriad â chydweithwyr yn NOMS.

Daeth y themâu canlynol yn ymwneud â chydraddoldeb i'r amlwg o'r ymchwil

yma:

- Dylai rhan ymgynghori'r adolygiadau Gwerth Gorau gynnwys ymgynghoriadau llawn gyda grwpiau cydraddoldeb.
- Dylai adolygiadau Gwerth Gorau fesur perfformiad y sefydliadau perthnasol ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb.
- Os yw adolygiadau Gwerth Gorau'n golygu bod gwasanaeth yn cael ei gontractio'n allanol, dylid sicrhau bod contractwyr yn cydymffurfio â pholisi a chyfraith cydraddoldeb, a'u bod yn arddel arferion cyfleoedd cyfartal da.
- Os yw adolygiadau Gwerth Gorau'n golygu bod gwasanaeth yn cael ei 1 gontractio'n allanol, gallai newidiadau tymor hir ym mhroffil y gweithlu gael effaith ar grwpiau arbennig.
- Yn gyffredinol, dylai materion cydraddoldeb gael eu prif-ffrydio oddi mewn i Gwerth Gorau.

Does dim o'r ymchwil hwn wedi awgrymu bod y polisi Gwerth Gorau – y fframwaith ar gyfer yr adolygiadau a'r adolygiadau eu hunain – yn cael effaith uniongyrchol ar y grwpiau a enwyd yng nghwestiwn 7. Mae'r pwyntiau uchod yn berthnasol i gyflenwi'r polisi, ar ffurf gweithrediadau fydd o ganlyniad i'r 1C adolygiadau – gweler isod. Felly ein barn ni yw na fydd unrhyw effaith o ganlyniad i'r polisi ar y grwpiau a restrir yng nghwestiwn 7.

Er hynny, bydd adolygiadau Gwerth Gorau fel arfer yn arwain at newidiadau mewn darparu gwasanaeth – bydded hynny'n ddiwygiad gan ddarparwr i'w arfer ei hun, neu'r gystadleuaeth. Mae hyn yn hollol ar wahân i'r polisi. Ar y pwynt yma gall Gwerth Gorau gael effaith ar y grwpiau a restrir 2 yng nghwestiwn 7, yn y ffaith y gallai'r adolygiadau arwain at ddeilliannau gwell iddyn nhw (gweler cwestiwn 8). Y ffactor yma sy'n ei gwneud yn addas i gynnal asesiad effaith llawn.

Byddai'n amhosibl asesu'n union beth fyddai'r effeithiau hynny cyn i'r adolygiadau Gwerth Gorau gael eu cwblhau. Bydd hyn yn galw am werthfawrogi'r holl ganlyniadau unigol posibl a allai godi o'r holl adolygiadau wnaed ar draws Cymru a Lloegr. Mae hyn yn ddibynnol ar amgylchiadau unigryw pob ardal prawf yn unigol.

Yn hytrach, dylai'r polisi gael ei strwythuro fel ei fod yn sicrhau bod yr holl ganlyniadau cydraddoldeb unigol yn cael eu darganfod ac yn cael eu cymryd i ystyriaeth ar lefel leol. Dyna lle y gallan nhw gael eu nodi a'u trafod yn fwyaf effeithiol. Gan ystyried y materion cydraddoldeb yng nghyfundrefn gwerth gorau llywodraeth leol, a restrir yn y pum pwynt uchod, rydyn ni wedi strwythuro'r fframwaith Gwerth Gorau arfaethedig er mwyn sicrhau bod yr ystyriaeth leol yma'n digwydd. Rydyn ni'n cynnig y mesurau canlynol fel rhan o'r fframwaith:

1. Bydd y manylebau gwasanaeth cenedlaethol mae NOMS yn eu rhoi i'r rhai sy'n cynnal adolygiadau Gwerth Gorau'n cynnwys ystyriaethau'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

2. Dylai ymgynghoriad oddi mewn i'r broses adolygu Gwerth Gorau gynnwys yr holl grwpiau o randdeiliaid, er mwyn sicrhau bod yr holl faterion perthnasol sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn cael eu hystyried.

3. Pan, yn ystod proses adolygu Gwerth Gorau, 5 mae ardaloedd prawf yn cymharu eu perfformiad gyda'u cyfoedion fe ddylen nhw geisio dysgu oddi wrth sut mae darparwyr eraill yn delio â materion yn ymwneud ag amrywiaeth.

4. Yn ystod cyfnod herio adolygiadau Gwerth Gorau, dylai darparwyr dalu sylw arbennig i sicrhau bod eu hymdrechion i gyflawni Gwerth Gorau ddim yn effeithio er gwaeth ar amrywiaeth.

5. Bydd angen i gynlluniau gwella perfformiad gynnwys asesiad o effaith cydraddoldeb, a fydd yn sicrhau bod unrhyw newid sylweddol i wasanaeth, yn cynnwys contractio'n allanol, yn cymryd i ystyriaeth ffactorau'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Wrth archwilio'r cynlluniau gwella perfformiad, bydd cyfarwyddwyr rhanbarthol yn sicrhau bod hyn wedi cael ei wneud.

Byddai hyn yn cael ei nodi ymhellach mewn canllaw a gyhoeddir gan NOMS.

Dylai hyn i gyd sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei roi i faterion cydraddoldeb unigol ar y lefel leol.

Am fwy o fanylion am y fframwaith a gynigir, gweler y ddogfen ymgynghori, yn gynharach yn y ddogfen gyffredinol hon. Mae tudalen 30 yn crynhoi'r mesurau cydraddoldeb, ac mae yna gwestiwn penodol i ymatebwyr yn gofyn a ydyn nhw'n cytuno â'r cynigion.

Byddwn yn ceisio cwrdd yn benodol gyda chymdeithasau staff rheoli troseddwyr sy'n cynrychioli grwpiau cydraddoldeb yn ystod y broses ymgynghori gyhoeddus.

Dyddiad y'i cwblhawyd: 7 Mawrth 2008

Arwyddwyd gan reolwr yr Uned neu'r Gyfarwyddiaeth: David Griffiths

Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y Rheolwyr Hŷn: 10 Mawrth 2008

Rhaid i gopi o'r sgriniad cychwynnol yma gael ei gyhoeddi gydag amlinelliad y polisi/strategaeth/swyddogaeth/prosiect. Rhaid i gopi wedi ei arwyddo gael ei gadw gan yr Uned/Adran at ddibenion archwilio.

Meini prawf yr ymgynghoriad

Mae'r chwe maen prawf fel a ganlyn:

1. Ymgynghorwch yn helaeth trwy gydol y broses, gan ganiatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygiad y polisi.

2. Byddwch yn glir ynglŷn â beth yw'ch cynigion, pwy gâi ei effeithio, pa gwestiynau gaiff eu gofyn a graddfa amser ar gyfer atebion.

3. Sicrhewch fod eich ymgynghoriad yn eglur, yn gryno ac ar gael yn gyffredinol.

4. Rhowch adborth ynglŷn â'r ymatebion a dderbynnir a sut roedd y broses ymgynghori wedi dylanwadu ar y polisi.

5. Monitrwch effeithiolrwydd eich adran wrth ymgynghori, yn cynnwys trwy ddefnyddio cydlynydd ymgynghoriad dynodedig.

6. Sicrhewch fod eich ymgynghoriad yn dilyn arfer gorau rheoliad gwell, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith, os yw'n berthnasol.

Rhaid i'r meini prawf hyn gael eu hatgynhyrchu oddi mewn i bob dogfen ymgynghori.

Manylion cyswllt Cydlynydd yr Ymgynghoriad

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y **broses** ymgynghori yn hytrach nag am y testun yr ymdrinnir ag ef yn y papur hwn, dylech gysylltu â Gabrielle Kann, Cydlynydd Ymgynghoriad y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar 020 7210 1326, neu anfonwch e-bost at consultation@justice.gsi.gov.uk.

Neu, efallai y dymunwch ysgrifennu ati yn y cyfeiriad isod:

Gabrielle Kann
Assistant Consultation Co-ordinator
Ministry of Justice
5th Floor Selborne House
54-60 Victoria Street
London
SW1E 6QW

Os yw'ch cwynion neu sylwadau'n cyfeirio at y pwnc yr ymdrinnir ag ef yn y papur hwn yn hytrach na'r broses ymgynghori, yna cyfeiriwch nhw ar y cyswllt a roddir yn adran **Sut i ymateb** y papur hwn ar dudalen 38.

© Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae fersiynau mewn fformatau eraill ar gael – cysylltwch â 020 7035 4930 neu bestvalueconsultation@justice.gsi.gov.uk.